

















# BLWYDDLYFR 2017 - 2018

FFÔN: 01248 720256 FACEBOOK: FFERMWYRIFANC.MON TWITTER.COM: CFFIYNYSMON

# FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC SWYDDOGION SIROL 2017/2018

**Llywydd**
Mr Tom Jones, Maes Mawr, Llanfechell, Ynys Môn

**Is-Lywydd**
Mr Aled Morris-Jones, Seibiant, Rhosybol, Ynys Môn

**Aelodau Oes**
Mr Leslie Ll Jones, The Sycamores, Gors Avenue, Caergybi, Ynys Môn
Miss Enid Williams, Hyfrydle, Nant Y Pandy, Llangefni, Ynys Môn
Mr Wyn Jones, Castellior, Porthaethwy, Ynys Môn
Miss Glenys Thomas, Pennant, Dwyran, Ynys Môn
Mr George Stuart, Rhyd Dafydd, Rhosgoch, Ynys Môn
Mrs Elen W Jones, Trefor Isaf, Llansadwrn, Ynys Môn

**Cadeirydd**
Miss Sioned Haf Williams, Pen Y Bryn, Llynfaes, Ynys Môn

**Is-Gadeirydd**
Miss Non Gwenllian Williams, Parc Isaf, Ty'n Lon, Ynys Môn

**Arolygydd Ariannol**
Mr Islwyn Humphreys, Hafod Y Coed, Talwrn, Llangefni, Ynys Môn

**Trysorydd Sirol**
Mr Gareth Thomas, Tregynrig Fawr, Cemaes Bay, Ynys Môn

**Cynrychiolydd Gwasanaeth Ieuenctid**
Miss Enid Williams, Hyfrydle, Nant Y Pandy, Llangefni, Ynys Môn

**Pwyllgor Hyfforddiant**
Cadeirydd: Miss Lois Mererid Williams, Parc Isaf, Ty'n Lon, Ynys Môn
Is-Gadeirydd: Mr Gareth Parry, Bryn Drofa, Llanbabo, Ynys Môn

**Trefnydd Sirol**
Mrs Edna Angharad Jones,
Canolfan C.Ff.I. Maes Sioe Môn, Gwalchmai, Caergybi, Ynys Môn, LL65 4RW
Ffôn: 01407 720256 e-bost: ynys.mon@yfc-wales.org.uk

**SWYDDFA CYMRU**
Canolfan C.Ff.I. Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-Muallt, Powys LD2 3NJ

**FFEDERASIWN CFfI CYMRU 2017 - 2018**

Bydd 12 mis yng nghylch y CFfI yn mynd heibio mewn chwinciad.

Mae'r heriau sy'n wynebu'r CFfI yn 2018 yn niferus, ond yn eu sgil, ceir cyfle i addasu a newid, i sicrhau ein bod ni'n parhau i gryfhau ein harlwy i bobl ifanc ledled cefn gwlad Cymru.

Mae'n galonogol gweld fod y CFfI yn parhau yn asgwrn cefn y gymuned wledig, ac mewn rhai ardaloedd, yn fwy nag erioed erbyn hyn, mae'n cynnig un o'r ychydig gyfleoedd prin i bobl ifanc ddatblygu. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol â rhagor o siroedd yn wynebu toriadau ariannol, dylem ni gofio beth yw ein gwerth a'r cyfraniad pwysig rydym yn ei wneud at feithrin datblygiad pobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd lefelau cynyddol o gyfranogi yn y rhaglen gyfan ar lefel Cymru. Rydym ni wedi llwyddo i gynnig cyfleoedd i fwy o aelodau nag erioed o'r blaen trwy ein rhaglen deithio ryngwladol, gan ychwanegu'r Almaen ac Wganda at yr arlwy. Fe wnaeth ein Pwyllgor Materion Gwledig arwain nifer helaeth o aelodau i'r Alban i brofi dulliau o ffermio i'r gogledd o Fur Hadrain, ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn, byddwn yn ymweld â'r Ynys Werdd, lle arall sydd yn ein rhestr dymuniadau. Marchnata oedd thema'r Gynhadledd Materion Gwledig, a chafwyd presenoldeb gwych gan yr aelodau, diolch i siaradwyr rhagorol oedd yn cyfrannu.

Fe wnaeth yr Ymgyrch Marchnata ynghylch BVD ar y cyd ag Allflex UK a Boerhinger Ingleheim roi cyfle i glybiau gydweithio ar fater allweddol sy'n wynebu ffermwyr da byw. Fe wnaeth aelodau ymweld â ffermydd lleol a chyfranogi mewn digwyddiadau hyfforddi trwy gyfrwng y Cynllun Cig Eidion, ac mae'r Cynllun Cig Oen yn parhau i ehangu ledled Cymru. Mae Gwobr Busnes y Flwyddyn wedi tyfu a gobeithir hefyd y gellir parhau â'n cydweithio llwyddiannus â Menter Moch.

Yn ddiweddar, mae CFfI Cymru wedi llwyddo i gael arian gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r gwaith o Farchnata'r Pentref Ieuenctid a chynyddu cyrhaeddiad y digwyddiad, ac rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith hwn yn y dyfodol agos wrth i ni geisio cynyddu ein ffrydiau incwm.

Mae ein rhaglen cystadlaethau yn parhau i fod yn llawn cyfleoedd i aelodau ddysgu sgiliau newydd, gweithredu y tu allan i'w cylch cysur ac arddangos eu hamrywiaeth anhygoel o ddoniau. Mae'r ymrwymiad i ddemocratiaeth ar lefel Cymru hefyd wedi cryfhau eleni, ac rydym ni'n ddiolchgar i bob sir am ddarparu cynrychiolwyr sydd wedi ymrwymo i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, gan lywio cyfeiriad datblygiad y mudiad a gwella'r ffederasiwn trwy adborth a chraffu adeiladol. Hir oes i'r traddodiad hwn.

Wedi'r ymgyrch codi arian lwyddiannus a chyfraniad hael iawn mewn ewyllys, rydym ni mewn sefyllfa i allu cwblhau prynu prif brydles Canolfan CFfI yn fuan ac edrychwn ymlaen at glywed beth yw dymuniadau'r aelodau at y dyfodol yn sgil prynu'r adeilad.

Mae Massey Ferguson, Dunbia ac NFU Cymru wedi ymuno ag AllFlex, Castell Howell Foods, Undeb Amaethwyr Cymru, Genus, Mid Wales Egg Packers, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, Rumenco a Wynnstay fel noddwyr corfforaethol CFfI Cymru. Mae ein dyled yn fawr iddynt am eu cymorth a'r cyfleoedd ychwanegol maent wedi'u cynnig i'r aelodau yn sgil eu cyfranogiad.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith CFfI Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; aelodau, cefnogwyr, noddwyr, rhanddeiliaid, beirniaid, stiwardiaid, staff a gwirfoddolwyr. Edrychwn ymlaen at gydweithio â phawb ohonoch chi yn ystod y deuddeg mis nesaf.

**WALES FEDERATION OF YFC 2017 - 2018**

12 months in the cycle of YFC goes by in the blink of an eye.

For YFC in 2018 the challenges are many but with them come the opportunity to adapt and change, to ensure we continue to strengthen our offering to rural young people across Wales.


It has been heartening to see that YFC is still the backbone of the rural community and now more than ever in some areas it is one of very few development outlets for young people. In the current financial climate and with more counties experiencing cuts we must not lose sight of our worth and the important role we play in nurturing young people's development.
The past year has seen increased levels of participation across the whole programme at a Wales level. We have been able to offer more members than ever before an opportunity through our international travel programme, adding Germany and Uganda to the menu. Our Rural Affairs Committee escorted a packed group to Scotland to experience farming practises north of Hadrians Wall and will be ticking the Emerald Isle off the wish list later this year. The Rural Affairs Conference took on the theme of Marketing and saw a great turn out from the membership thanks to an excellent line up of speakers.
The BVD Marketing Campaign in conjunction with Allflex UK and Boerhinger Ingleheim gave clubs the opportunity to work together on a critical issue facing livestock farmers. Members took up local farm visits and training events through the Beef Scheme whilst the Lamb Scheme continues to expand across Wales. The Business of the Year Award has grown along with hope for the continuation of our successful collaboration with Menter Moch.
Wales YFC has recently secured funding from Welsh Government to develop the Marketing of the Young Peoples Village to increase the reach of the event and we look forward to seeing the results of this work in the near future as we look to maximise revenue streams.
Our competition programme continues to be jam packed with opportunities for members to learn new skills, operate outside of their comfort zones and demonstrate their incredible array of talents. The commitment to democracy at Wales level has also strengthened this year and we are grateful to every county for providing representatives who are committed to feeding into the decision making process, shaping the direction of development and improving the federation through constructive feedback and scrutiny. Long may this continue.
After the successful fundraising campaign and a very generous posthumous donation we are in position to complete on the purchase of the YFC Centre head lease imminently and look forward to hearing what the membership would like to see from the acquisition in the future.
AllFlex, Castell Howell Foods, FUW, Genus, Mid Wales Egg Packers, Royal Welsh Agricultural Society, Rumenco and Wynnstay have been joined by Dunbia, Massey Ferguson and NFU Cymru as corporate sponsors of Wales YFC. We are indebted to them for their support and the additional opportunities they have afforded the membership through their involvement.
Thank you to all who have been involved in Wales YFC over the past year; members, supporters, sponsors, stakeholders, judges, stewards, staff and volunteers. We look forward to working with you all during the next twelve months.

Laura Elliott
Chairman of Council

Nia Lloyd
Director








1343 British Wool Generic producer ad_A5 portrait col AW.indd 1 28/02/2018 13:15

# GAIR GAN Y LLYWYDD SIROL

Anrhydedd fawr oedd derbyn y gwahoddiad i fod yn Llywydd y Sir i'r mudiad. Rwyf yn hynod ddiolchgar am y cyfle. Dechreuodd fy nhaith gyda'r ffermwyr ifanc yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, dros hanner canrif yn ôl. Roeddwn yn aelod o glwb Llanfaethlu oedd yn cyfarfod yn Ysgol Llanrhuddlad. Mae'n debyg mai clwb Bodedern sydd yn ymestyn i'r ardal erbyn heddiw.

Mae gennyf atgofion melys iawn o'r dyddiau cynnar a chael llu o brofiadau yn cynnwys barnu stoc, cystadlu yn y rali a siarad cyhoeddus. Mae'r profiad o siarad yn gyhoeddus am y tro cyntaf yn fyw yn y cof, teimlo yn eithriadol o bryderus. Y pwnc oedd arwyddair y mudiad, sef " Ffermwyr Da, Dinasyddion Da a Christnogion Da" . Fy rôl i oedd siarad yn erbyn y gosodiad!

Dyna ddigon am yr hen oes. Mae bod yng nghwmni aelodau presennol y mudiad yn hwyl, ac yn lles i'r ysbryd. Fel mudiad rydym yn ffodus iawn o'r arweinyddiaeth ar yr ynys. Mae Edna a Julie yn cadw trefn yn y swyddfa yn effeithiol ac mae aelodau ymroddgar gyda llond gwlad o allu yn arwain. Hawdd iawn yw cyd weithio gyda chriw mor dda.

Mae yna sawl uchafbwynt wedi bod yn barod eleni. Roedd yr Eisteddfod yn adlewyrchiad gwych o'r dalent sydd o fewn y mudiad. Cafwyd hwyl garw yn noson y "panto" yn yr Ucheldre, a'r lle yn orlawn. Noson arall i'w chofio oedd y canu carolau ym Modffordd, gyda'r naws arbennig.

Roedd Sioned Haf am wneud rhywbeth gwahanol yn ystod ei blwyddyn fel Cadeirydd. Bu'r "Taith Tractors" yn fenter, yn llwyddiant mawr ac yn hwyl dda.

Flwyddyn yn ôl pwysleisiodd Jane, y llywydd, y pwysigrwydd o wneud ffrindiau yn y mudiad. Rwy'n cytuno yn llwyr! Buan mae'r cystadlu yn mynd i'r cefndir ond mae ffrindiau yn aros am oes.

Fel gwyddoch ,mae yna ddau ŵyr bach yn ein teulu ni, a braf fyddai gweld y ddau yn aelodau o'r mudiad rywbryd yn y dyfodol.

Rwyf wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac yn dymuno yn dda i bawb yn y Rali eleni. Pob lwc a mwynhewch!






# Pob lwc i bawb yn y Rali eleni!

Creda Gaskells Waste ei bod hi'n bwysig rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt, felly rydym yn hynod o falch ein bod yn cefnogi Mudiad Ffermwyr Ifanc Môn. Mae'r gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud gyda phobl ifanc yng nghefn gwlad ar hyd a lled yr ynys yn allweddol er mwyn galluogi i gymunedau ffynnu ac rydym yn falch iawn o gynorthwyo. Byddwn yn cydweithio ar sawl menter cyffrous eleni ac yn y dyfodol.

Mae Gaskells Waste yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Ynys Môn i wasanaethu eu holl ysgolion, llyfrgelloedd, cartrefi preswyl a chanolfannau hamdden i wella eu hailgylchu a'u graddau o ailddefnyddio. Yn ogystal â hyn, rydym yn cydweithio â nifer o fusnesu eraill ar draws Ynys Môn, gan gynnwys parciau gwyliau, siopau, bariau, caffis a salonau harddwch er mwyn eu cynorthwyo i ailgylchu fwy, lleihau eu hôl troed carbon ac arbed arian.
Er mwyn darganfod sut y gallwn eich helpu, ffoniwch 0800 046 9800
Neu edrychwch ar ein gwefan:
www.gaskellswaste.co.uk

# ADRODDIAD CADEIRYDD SIR CFFI YNYS MÔN

Wel mae blwyddyn wedi hedfan heibio ac mae'n agosau at ddiwedd fy nghyfnod fel cadeirydd y Sir. Rwyf wedi mwynhau pob eiliad. Fel aelod o'r mudiad ers pedwar ar ddeg o flynyddoedd, roedd hi wir yn fraint ac anrhydedd i mi eleni gael fy ethol fel cadeirydd Ffremwyr Ifanc Môn. Pleser yw cael bod yn ran o fudiad mor weithgar a chroesawgar. Braint oedd cael Mr Twm Jones, Maes Mawr wrth fy ochr fel llywydd, sydd wedi bod yn hynod o gefnogol o'r mudiad.

Fel pob blwyddyn arall mae eleni eto wedi bod yn flwyddyn brysur a llawn hwyl gyda nifer o weithgareddau, nosweithiau clybiau a chystadleuthau yn ystod y flwyddyn. Roedd yn bleser ac yn braf i mi fel cadeirydd cael mynd o amgylch y chwe clwb sydd gennym ar yr ynys ac ymuno a nhw ar eu nosweithiau clwb a chynal ambell i noson gemau. Diolch i bob clwb am y croeso cynnes a gefais a rydym yn lwcus iawn o'n aelodau,swyddogion ac arweinyddion gweithgar a brwdfrydig.

Roedd hi'n flwyddyn prysur o gystadlu, gan cychwyn gyda un o brif ddigwyddiadau'r mudiad sef yr Eisteddfod. Roedd hi'n Eisteddfod lwyddiannus iawn gyda nifer o aelodau yn cystadlu a nifer yn y gynulleidfa. Llongyfarchiadau i Rhosybol a ddaeth i'r brig ar y diwrnod eleni. Braf oedd gweld cymaint o aelodau yn mynd i gynrychioli'r Sir yn Eisteddfod CFfI Cymru a gafodd ei gynnal yn y Gogledd eleni sef Venue Cymru Llandudno. Cafwyd nifer o lwyddiannau fel sir ar y diwrnod. Yn fuan wedyn roedd hi'n amser i Ffair aeaf sioe Môn, lle roedd aelodau yn cymryd rhan mewn nifer o gystadlaethau megis barnu stoc, coginio, cynnyrch a mwy.

Hefyd roedd hi'n braf gweld cynifer o aelodau yn cymryd y cyfle i gystadlu yn y siarad cyhoeddus eto eleni. Teimlaf ei fod yn brofiad gwych i aelodau a byddant yn elwa ohono yn y dyfodol, a braf oedd gweld tîm o bob oedran yn mynd lawr i Lanelwedd i gynrychioli'r sir yn nghystadeuaeth siarad cyhoeddus Cymru. Hefyd eleni roedd cystadleuaeth y Pantomeim, a braf oedd gweld tri panto ar y noson yng nghanolfan Ucheldre Caergybi. Clybiau Dwyran a Llangefni a ddaeth i'r brig, braf oedd gweld y ddau glwb yn dod at ei gilydd i greu panto. Pleser oedd ymuno a nhw a mynd lawr i gystadleuaeth panto Cymru ym Mrycheiniog, lle cafwyd perfformiad gwych ar y noson, a digon o hwyl ar y bws ar y ffordd adra.

Un o'r cystadlaethau olaf cyn y rali oedd y diwrnod gwaith maes, lle aeth nifer o aelodau ymlaen i ddiwrnod gwaith maes Cymru i farnu stoc. Llongyfarchiadau i Cain Owen am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y stocmon iau ac i'r tîm iau am ddod yn drydydd wrth farnu Stoc.

Roedd ambell gyfnod i ffwrdd o'r cystadlu. Trefnwyd noson 'Ffasiwn a ffiz' yn mis Tachwedd yn neuadd fwyd cae Sioe Môn. Noson llawn hwyl gyda digon o wario. Diolch yn fawr iawn i Natwest am noddi'r noson a rwy'n hynod o ddiolchgar hefyd i'r dynion a fu'n helpu ar y noson er mwyn i'r merched eistedd yn ôl ac ymlacio. Ac rwy'n fach iawn o ddweud fod y noson wedi llwyddo i gasglu £600 tuag at elusen Tommy's.

Roedd yna hefyd amser i ymlacio a mwynhau yn ngwesty Bae Trearddur ym mharti ein cyn lywydd a chyn gadeirydd sef Jayne Foulkes a Sioned Edwards. Roedd yn noson hwyliog, a hefyd yn gyfle da i ddiolch i'r cyn swyddogion am eu holl waith.

Trefnwyd noson garolau cyn y Nadolig yng Nghapel Gad Newydd, Bodffordd, gyda nifer o eitemau gan y clybiau a braf oedd gweld ein aelodau yn cymdeithasu a chael hwyl yn ein cwis blynyddol eleni yng nglwb Rygbi Llangefni.

Roedd hi'n anodd dilyn heriau cadeiryddion blaenorol y sir, ond ar ôl misoedd o bendroni penderfynnais drefnu taith tractorau o amgylch ardaloedd clybiau C.Ff.I. Ynys Môn i hel arian tuag at Ymchwil Cancer a Ambiwlans Awyr Cymru. Roedd dreifio tractor yn sialens enfawr i mi, fel un oedd erioed wedi dreifio tractor, hyd yn oed ar gae o'r blaen. Ond roedd hi'n ddiwrnod hynod lwyddianus gyda nifer yn troi allan i gefnogi ar y diwrnod. Hefyd hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Geraint Lloyd, Llywydd Cenedlaethol y mudiad, am ymuno a ni ar y daith.

Braint i ni fel mudiad oedd derbyn gwahoddiad i gynnal Eisteddfod Môn 2019, mi fydd yn her newydd a chyffrous i aelodau'r mudiad ac yn gyfle i'r mudiad gefnogi digwyddiad arall ar y sir. Roeddwn yn falch o weld y Fforwm ieuenctid yn cael ei ail sefydlu eleni a braf oedd gweld cyn gymaint o aelodau yn mynychu'r cyfarfodydd.

Edrychaf ymlaen rwan i'r ychydig fisoedd sydd gen i ar ôl fel Cadeirydd Ffermwyr Ifanc Môn. Mae'n ddyled i yn enfawr i'r mudiad, rwyf wedi elwa gymaint o gyfleon sydd i'w gael ohonno ac wedi magu hyder dros y blynyddoedd. Felly mi fyswn wirioneddol yn cynghori aelodau i wneud y mwyaf o'r

cyfleoedd sydd gan y mudiad i'w gynnig, a hefyd rhowch gynnig ar bethau efallai na fuasech yn ei wneud tu allan i'r mudiad. Mae wir yn werthfawr, ac rwy'n ddiolchgar iawn o fod yn ran o fudiad mor arbennig.
Hoffwn ddymuno pob lwc i bawb fydd yn cystadlu yn y rali ac I'r rhai fydd yn mynd i ymlaen i gynrychioli'r sir yn y Sioe Frenhinol. Hoffwn ddiolch i'r aelodau, rhieni, swyddogion y clybiau a'r sir a hyfforddwyr am eu gwaith caled ac am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.  Yn bennaf hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch i Edna a Julie am eu holl waith caled ac am gadw trefn ar y mudiad ac am yr holl chwerthin a tynnu coes.
Sioned Haf Williams





## Llywyddion y Dydd - Richard ac Ann



Pleser mawr yw cael bod yn llywyddion y rali eleni.
Mae'r mudiad yn un arbennig iawn, sydd yn cynnig cyfleoedd amhrisiadwy i ieuenctid yng nghefn gwlad. Mae'r gweithgareddau a gynhigir yn datblygu unigolion i fod yn hyderus.
Pob lwc i bawb yn y cystadlaethau heddiw, a diolch i bawb sydd yn gweithio mor galed i wneud y diwrnod yn un llwyddiannus.



YMGYMERWR ANGLADDAU / FUNERAL DIRECTOR

Arwyn Hughes

Am wasanaeth personol a gofalus
For a personal and caring service

01248 410 353 - 07767 265 197

arwyn.hughes@btinternet.com
Bryn Hyfryd, Dulas, Amlwch, Ynys Môn LL70 9PJ



Morgan Evans
50
YEARS
1964
2014
Successfully serving Anglesey for over 50 years
Your one-stop shop for buying & selling across the board
THE GAERWEN AUCTION CENTRE
Lon Groes, Gaerwen, Anglesey LL60 6LL
01248 421582
Livestock
Antiques
Household & Collectables
Machinery & Tools
Vehicles
Carpets
HEAD OFFICE
28-30 Church Street, Llangefni, Anglesey LL77 7DU
01248 723303
Property
Lettings
Surveyors Office
LLANGEFNI AUCTION SALEROOMS
For Land & property Auctions
www.morganevans.com

**CCB CFfI Ynys Môn**

Cynhaliwyd CCB CFfI Ynys Môn eleni ar 22 Awst 2017 yn Siamber y Cyngor, Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn. Pleser oedd cael croesawu Glyn Roberts, Dylassau sef Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru i'n plith fel ein siaradwr gwadd. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Jane Foulkes, Llywydd CFfI Ynys Môn 2016-17 a cafodd y swyddogion canlynol eu hethol yn ffurfiol:

**Llywydd:** Tom Jones, Maes Mawr
**Is-Lywydd:** Aled Morris Jones
**Cadeirydd:** Sioned Haf Williams, CFfI Bodedern
**Is-Gadeirydd:** Non Gwenllian Williams, CFfI Bodedern
**Aelodau Ymgynghorol y Pwyllgor Gwaith:** Bob Roberts
Emyr Prys Davies
Ieuan P. Williams
Iwan Huws
Mandy Evans
Nia Medi Williams
Sian Morgan Owen
Sian Tudor
Wyn Williams

**CCB CFfI Cymru**

Cynhaliwyd CCB CFfI Cymru eleni yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth ar benwythnos 29 Medi - 1 Hydref 2017. Cynhaliwyd noson hwyliog ar y nos wener gyda helfa drysor o amgylch tafarndai Aberystwyth – gyda phawb wedi gwisgo i fyny yn dilyn thema'r noson sef môr ladron! Cynhaliwyd y CCB yng Ngwesty'r Marine ar fore Sadwrn y 30 o Fedi. Braf oedd gweld cynrychiolaeth o CFfI Ynys Môn yn bresennol, ac hynny o nifer o glybiau'r sir. Cafodd y swyddogion canlynol eu hethol:

**Cadeirydd CFfI Cymru:** Laura Elliott, Morgannwg
**Is-Gadeirydd CFfI Cymru:** Dafydd Jones, Meirionnydd

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt ac edrychwn ymlaen i'w croesawu i Ynys Môn.
Cafodd Sioned Haf Williams y pleser o cynnig Geraint Lloyd BBC Radio Cymru fel Llywydd CFfI Cymru dros y dair blynedd nesaf ac rydym yn hynod falch bod y cynnig wedi ei gefnogi gan aelodau'r CCB. Dymunwn pob dymuniad da i Geraint yn ei rôl newydd ac edrychwn ymlaen i gael sgwrs gydag o ar y radio ac i'w groesawu dros y bont yma i Fôn.
Yn ogystal a'r CCB, cynhaliwyd cyfarfod Cyngor CFfI Cyngor ynghyd gyda'r Is-Bwyllgorau. Mae'n glôd ac yn fraint i CFfI Ynys Môn bod dwy o'n haelodau wedi eu hethol fel Cadeiryddion dau Is-Bwyllgor:


**Cadeirydd Pwyllgor Digwyddiadau a Marchnata:** Sioned Edwards, CFfI Dwyran
**Cadeirydd Fforwm Ieuenctid:** Cain Owen, CFfI Llangefni

Pob dymuniad da i Sioned a Cain wrth iddynt barhau yn eu rôl fel Swyddogion CFfI Cymru.

**Dathliad Llywydd a Chadeirydd CFfI Ynys Môn 2016-2017**

Cynhaliwyd cinio ar yr 2il o Ragfyr yng Ngwesty Bae Trearddur i ddathlu blwyddyn Llywydd a Chadeirydd CFfI Ynys Môn 2016-2017, sef Jane Foulkes, Bodowyr a Sioned Edwards, CFfI Dwyran. Cafodd pawb llond bol o fwyd ac braf oedd gweld rhan fwyaf o'r ystafell ar eu traed yn dawnsio tan oriau man y bore! Mi gafodd pawb noson hwyliog gyda'r 'photobooth' yn cael sylw gan bawb ac mi gafodd ambell un anrheg go arbennig gan eu Santa Cudd! Cynhaliwyd ocsiwn gan aelodau CFfI Penmynydd er mwyn codi arian tuag at Canolfan Penmynydd ac hoffem ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at yr ocsiwn mewn unrhyw ffordd. Noson gret i orffen y flwyddyn ac i gael cymdeithasu yn hwyl yr ŵyl!

## Carrs-PFS yn cefnogi Ffermwyr Ifanc Mon




WellChild
the national charity for sick children

## Get your crops all wrapped up by Carrs Billington & PFS

Netwrap - Bale wrap - Twine

Silage sheets & Covers

Carrs Billington

Unit 35-36, Gaerwen Industrial Estate
Gaerwen, Anglesey LL60 6HR

**01248 422486**

carrs-billington.com

pfs

# HER Y CADEIRYDD



Ynghyd gyda'n Llywydd Mr Twm Jones, Maes Mawr penderfynnais drefnu taith tractorau o amgylch clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Môn.
Dysgais sut i ddreifio Tractor yn arbennig ar gyfer y daith a coeliwch chi mi roedd hyn yn sialens fawr i mi. Roedd y daith yn cael ei gynnal ar y 12fed o Fai a Ysgol Uwchradd Bodedern.
Roedd hi'n ddiwrnod braf a daeth 17 o dractorau i ymuno ar y daith. Hefyd yn ymuno gyda ni ar y diwrnod roedd Geraint Lloyd o Radio Cymru. Braint i mi oedd cael arwain y daith mewn tractor coch gan Emyr Evans, diolch yn fawr iawn i'r cwmni am fod mor ddewr a rhoi fenthyg tractor i mi ar y diwrnod. Hefyd diolch i FUW am drefnu ysiwrant i mi ar y diwrnod.
Cawsom ginio yn Brynteg a oedd wedi cael ei ddarparu gan Nerys Williams a Eirianwen Williams. Ymlaen wedyn a chyrraedd Castellior am baned a theisen a diolch i deulu Castellior am y croeso cynnes.
Mae'n rhaid nad oeddwn rhy ddrwg yn dreifio'r tractor gan fod Geraint Lloyd wedi bod digon dewr i ymuno gyda mi yn y tractor yr holl ffordd o Castellior i Tafarn y gors, lle roeddem yn gorffen y daith gyda pryd o fwyd.
Rhwng y diwrnod a noddwyr codwyd dros £1000 i rannu rhwng elusen Ymchwil Cancer a Ambiwlans Awyr Cymru.
Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n helpu ar y diwrnod ac i bawb am y cefnogaeth. Diwrnod llwyddiannus dros ben.




**Adroddiad Cadeirydd Hyfforddiant**

Wel mae blwyddyn arall yn gwibio heibio ac yn bersonol, mae hi wedi bod yn flwyddyn i'w chofio! Braint oedd cael fy ethol yn gadeirydd hyfforddiant eleni ac rwy'n hynod o ddiolchgar i Rhiannon am ei gwaith caled yn ystod y flwyddyn diwethaf.

Rwy'n falch o ddweud ei bod hi wedi bod yn flwyddyn llawn cystadlu brwd eto eleni ac mae hi wedi bod yn bleser gwylio talent ein haelodau mewn amryw o gystadlaethau drwy'r flwyddyn. Heb os nac oni bai, mae'r mudiad yn cynnig cyfleoedd amrywiol, amhrisiadwy i bobl ifanc, o farnu, i ganu, i dynnu rhaff. Mae hi wedi bod yn braf gweld cynifer o aelodau yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac yn arddangos eu doniau gyda rhai, dwi'n siŵr, yn darganfod ambell i ddawn am y tro cyntaf! O safbwynt personol, rwy'n bendant wedi elwa o gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chystadlu mewn amryw o gystadlaethau dros y blynyddoedd a theimlaf yn hynod o ffodus o gael y cyfle i fod yn rhan o'r tîm sydd wrth y llyw. Yn sicr, mae hi wedi bod yn bleser cael gwylio aelodau'n datblygu ac yn blodeuo a'r mudiad yn parhau i ddatblygu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'n rhaid nodi bod cynifer o aelodau wedi cynrychioli'r sir a bod yn llwyddiannus ar lefel cenedlaethol eleni hefyd ac yn sicr wedi rhoi Môn ar y map! Braf iawn oedd clywed enw ein sir fach ni'n cael ei chyhoeddi dro ar ôl tro mewn gwahanol gystadlaethau ar lefel Cymru drwy gydol y flwyddyn. Yn sicr, mae gennym lawer i ymfalchïo ynddo. Mae 'Gwlad y Medra' yn ein siwtio i'r dim!

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur, byrlymus ond ni fyddai wedi bod yn bosib heb gefnogaeth a chynhaliaeth sawl un sy'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod y mudiad yn parhau i ffynnu yma ym Môn. Diolch o galon i Edna, ein Swyddog Datblygu a Julie, ein Swyddog Gweinyddol am y gefnogaeth ac am ddelio gyda fy amryw o ebyst yn swnian yn ddi-ddiwedd! Yn ogystal â hyn, rwy'n hynod o ddiolchgar i fy nghyd-swyddogion a'r llywyddion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i chi gyd am wneud hi'n flwyddyn llawn mwynhad a gwneud fy ngwaith fel Cadeirydd Hyfforddiant yn rhwydd!

A ninnau ar drothwy rali arall, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb sydd ynghlwm â'r mudiad, i hyfforddwyr, rhieni a swyddogion y clybiau am roi eu hamser i gefnogi a datblygu ein pobl ifanc. Hefyd, diolch i'n cefnogwyr brwd am eu ffyddlondeb. Yn olaf ac yn bennaf, diolch i'n holl aelodau am eu brwdfrydedd i gystadlu a'n cefnogi drwy gydol y flwyddyn. Rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol a bod gan ein haelodau a'n mudiad ddyfodol disglair.

Diolch yn fawr. Lois Mererid Williams, Cadeirydd Hyfforddiant



**Cystadleuaeth Gwledd o Adloniant**

Creu a chyflwyno gwerth awr o Bantomeim oedd tasg y clybiau eleni yn y gystadleuaeth Gwledd o Adloniant. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar Nos Sadwrn Chwefror 17eg yng Nghanolfan Ucheldre, Caergybi a'r beirniad ar y noson oedd neb llai na Linda Brown 'Run Sbit'. Cafwyd tri phantomeim ar y noson, gyda chlwb Bodedern yn mynd a ni i helbul yr archfarchnad yn 'Technos – Siopa Trwy'r Dydd', Rhosybol yn cyflwyno trafferthion 'Ffatri Gaws Tina Fontina', a bu i glwb Llangefni a Dwyran gyfuno i adrodd miri 'Madam Wen' a'i chriw. Roedd hi'n noson gwerth chweil, y ganolfan yn llawn i'r ochrau, y gynulleidfa wedi ei diddanu'n llwyr ac yn ei dyblau'n gwylio'r perfformiadau. Rhaid llongyfarch a diolch i'r holl aelodau fu'n rhan o bob un o'r cynyrchiadau gan fod safon y gystadleuaeth yn uchel iawn. Diolch hefyd i bawb fu ynghlwm ac yn helpu'r clybiau, yn rhieni, yn arweinyddion, a heb anghofio'r rhai fu'n gyfrifol o'r gwisgoedd a'r colur gan fod y tair Dame ym mhob un o'r Pantomeim yn ddigon o sioe! Joban a hanner yn ei hun tybiwn i! Non Williams o glwb Bodedern enillodd y wobr am yr actores orau a Gareth Parry o glwb Rhosybol oedd yr actor gorau, a chlwb Bodedern hefyd yn ennill y wobr am y set orau. Ond clybiau Llangefni a Dwyran oedd yn fuddugol ar y noson ac yn mynd ymlaen i gynrychioli'r sir yn Theatr y Pafiliwn yn Rhyl. Llongyfarchiadau i chi gyd.







**Cystadleuaeth Gwledd o Adloniant Cymru**
Yn dilyn y gystadleuaeth sirol, bu Clybiau Llangefni a Dwyran wrthi’n ddygn yn rhoi sglein ar eu perfformiad er mwyn adrodd miri ‘Madam Wen’ a’i chriw ar gyfer cystadleuaeth Cymru, yn Theatr y Pafiliwn yn Rhyl ar Fawrth y 4ydd. Ond cafwyd dipyn o firi’r penwythnos hwnnw wrth i’r eira orfodi’r gystadleuaeth gael ei ohirio. Ail-drefnwyd y gystadleuaeth ac felly lawr i Theatr Brycheiniog, yn Aberhonddu ar y 15fed o Ebrill mewn bws oedd rhaid, y cast, y props a’r set! Beirniad y gystadleuaeth oedd yr actor Ieuan Rhys a chafwyd adborth a chanmoliaeth uchel iawn i berfformiad Llangefni a Dwyran oedd yn berfformiad hwyliog, llawn egni a hyder. Roedd yn brofiad a hanner i bawb ac yn enwedig i lawer o’r aelodau ifanc nad oedd erioed wedi cystadlu ar lwyfan Cymru o’r blaen. Roedd hi’n ddiwrnod hir a blinedig wrth deithio i fyny ac i lawr mewn diwrnod, ond roedd pawb wedi mwynhau’n arw a phawb mewn hwyliau da yn canu ar y bws adref. Hyd nes i ni gyrraedd Caer am oddeutu 2 y bore, a’r canu’n troi’n chwyrnu am weddill y siwrna’ yn ôl i Ynys Môn! Ar ran Dwyran a Llangefni hoffwn ddiolch i’r holl aelodau fu’n rhan o’r Panto, i’r rhieni, arweinyddion a chefnogwyr ddaeth i lawr i Aberhonddu i’n cefnogi. Diolch hefyd i Menna Evans, Henry a Carys Jones am eu cymorth ac am gadw ni gyd mewn trefn! Diolch a llongyfarchiadau i bawb.



Sioe Aeaf Môn 2017

Fel yr arfer, roedd aelodau Ffermwyr Ifanc Môn yn brysur dros ben yn Sioe Aeaf Môn y llynedd. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Gymdeithas Amaethyddol Môn am gael cynnal cystadlaethau'r gaeaf y Ffermwyr Ifanc yn y Sioe bob blwyddyn. Cafwyd cystadlu brwd yn y dair gystadleuaeth barnu stoc – bîff, ŵyn a charcas a braf oedd gweld cymaint o wynebau newydd (yn ogystal â'r gwynebau fwy profiadol!) yn cystadlu. Roedd safon y stoc yn wych ac roedd hen grafu pen wrth geisio penderfynu sut i'w gosod! Diolch i'r beirniaid a'r stiwardiaid ymhob cystadleuaeth ac i'r rhai a roddodd fenthyg eu da byw ar gyfer y cystadlu.
Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau Ffermwyr Ifanc, llongyfarchiadau mawr i bawb:

## Barnu Carcas

dan 16
1af Daniel Williams, Rhosybol
2il Elliw Roberts, Rhosybol
3ydd Jac Davies, Rhosybol

dan 18
=1af Cain Owen, Llangefni
=1af Alaw Williams, Bodedern
3ydd Morgan Williams, Rhosybol

dan 21
1af Rhys Richards, Bodedern
2il Caitlin Jones, Bodedern
3ydd Manon Rowlands, Rhosybol

dan 26
1af Teleri Hughes, Rhosybol
2il Gwenno Evans, Llangefni
3ydd Gareth Parry, Rhosybol

## Barnu ŵyn

dan 16
1af Erin Tudor, Rhosybol
2il Owain Tudor, Rhosybol
3ydd Jac Davies, Rhosybol

dan 18
1af Cain Owen, Llangefni
2il Lowri Hughes, Bodedern
3ydd Leah Edwards, Bodedern

dan 21
1af Caitlin Jones, Bodedern
2il Rhys Richards, Bodedern

dan 26
1af Teleri Hughes, Rhosybol
2il Gwenno Evans, Llangefni
3ydd Manon Parry, Llangef

## Barnu biff

dan 16
1af Elliw Roberts, Rhosybol
2il Twm Tudor, Rhosybol
=3ydd Jac Davies, Rhosybol
=3ydd Tomos Roberts, Rhosybol

dan 18
1af Morgan Williams, Rhosybol
2il Cain Owen, Llangefni
3ydd Leah Edwards, Bodedern

dan 21
1af Caitlin Jones, Bodedern
2il Rhys Richards, Bodedern
3ydd Manon Rowlands, Rhosybol

dan 26
=1af Teleri Hughes, Rhosybol
=1af Manon Parry, Llangefni
=3ydd Gwenno Evans, Llangefni
=3ydd Non Williams, Bodedern

Yn ogystal â chystadlaethau'r mudiad, roedd nifer o'r aelodau yn brysur gyda chystadlaethau eraill yn y Sioe. Dyma'r canlyniadau dangos stoc, crefft a choginio:

Cynnyrch
$1^{af}$ Tomos Roberts, Rhosybol
$2^{il}$ Catrin Pritchard Evans, Penmynydd
$3^{ydd}$ Cara Pritchard Evans, Penmynydd

Mins Peis
$1^{af}$ Elliw Roberts, Rhosybol
$2^{il}$ Elliw Huws, Bodedern
$3^{ydd}$ Mared Jones, Rhosybol

Teisen Foron
$1^{af}$ Elliw Huws, Bodedern
$2^{il}$ Lowri Hughes, Bodedern
$3^{ydd}$ Sarah Tudor, Rhosybol

Gwaith Llaw
$1^{af}$ Manon Rowlands, Rhosybol
$2^{il}$ Mared Jones, Rhosybol
$3^{ydd}$ Emma Lloyd, Bodedern

Dangos Oen
$1^{af}$ Gwenno Evans, Llangefni
$2^{il}$ Rhion Owen, Rhosybol
$3^{ydd}$ Elin Rowlands, Llangefni

Pencampwr Bîff
Deiniol Hughes, Rhosybol

Is-bencampwr Biff
Llŷr Taylor, Bodedern

Cynhaliwyd y gystadleuaeth trimio oen yn fferm Myfyrian, Gaerwen yr wythnos ganlynol. Cafwyd nifer yn cystadlu gyda chanmoliaeth uchel gan y beirniaid. Diolch i deulu Myfyrian am gael dod draw i gynnal y gystadleuaeth ac i'r beirniaid am ddod atom. Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Owen, CFfI Rhosybol am ddod yn fuddugol.










Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru 2017

Fe aeth y buddugwyr yng nghystadlaethau'r Ffermwyr Ifanc yn Sioe Aeaf Môn yn eu blaen i gystadlu yn Ffair Aeaf Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd ddiwedd fis Tachwedd. Cafwyd deuddydd hwyliog dros ben yn y Ffair Aeaf a'r aelodau oedd yn cystadlu wedi cael profiadau gwerthfawr. Llongyfarchiadau gwresog i Elliw Roberts, C.Ff.I  Rhosybol ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth barnu bîff o dan un ar bymtheg - tipyn o gamp ar lefel Cymru ble roedd y safon yn arbennig o uchel!



**Fforwm Ieuenctid**
Yn dilyn cyfnod distaw, gydag ond llond llaw yn mynychu'r Fforwm Ieuenctid penderfynwyd ei ail lansio. Gyda Sioned Haf, ein Cadeirydd Sir, aethom ati i godi ymwybyddiaeth gydag ymweliadau i'r Clybiau a negeseuon ar y gwefannau cymdeithasol. Ein noson gyntaf oedd Noson "Moctels" gyda 30 aelod ifanc yn ymuno a ni. Bellach mae ganddo'm 15 aelod selog yn mynychu digwyddiadau'r Fforwm yn rheolaidd. Yn ystod y nosweithiau yma cawn amryw o ddigwyddiadau, yn cynnwys rownderi, chwarae pêl droed a gemau bwrdd. Fel rheol, fe fydd y Fforwm yn cyfarfod ar y bedwaredd nos Iau'r mis am 7:00yh yn y Ganolfan ym Mona. Mae croeso i oll aelodau'r Mudiad o dan 18 oed i ddod - mae hwn yn gyfle gwych i aelodau Iau'r Mudiad lleisio eu barn a chymered rhan i drefnu digwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Noson Gampio.
**Cara Evans**



## Llysgenhades Cymdeithas Amaethyddol Môn 2017-18

Braint ac anrhydedd oedd cael fy mhenodi yn Lysgennad Cymdeithas Amaethyddol Môn ar gyfer 2017-18. Fel aelod brwd o Fudiad y Ffermwyr Ifanc ac yn astudio ar gyfer fy Noethuriaeth mewn Amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor ar y funud, roedd y rôl yn gweddu i'r dim i fy mywyd dydd i ddydd!

Cefais flas o eistedd ar bwyllgorau'r Gymdeithas fel cynrychiolydd ar ran Mudiad Ffermwyr Ifanc Môn yn y misoedd cyn ymgeisio am y rôl. Rwy'n falch iawn o ddweud fod gan y Gymdeithas bwyllgor ieuenctid cryf, a braf yw cael gweld mewnbwn pobl ifanc yn cael ei werthfawrogi mewn Cymdeithas o'r fath.

Cafwyd newid i'r drefn arferol o benodi Llysgennad y llynedd, gyda'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal ynghynt yn y flwyddyn yn hytrach nag ar ddiwrnod cyntaf y Sioe Haf. Strwythurwyd y gystadleuaeth ar ffurf ffurflen gais, cyfweliad i ddilyn a'r canlyniad yn cael ei gyhoeddi mewn noson yng nghwmni Aled Rhys Jones, Dirprwy Brif Weithredwr Cymdeithas Amaethyddol Cymru, wedi'i threfnu gan y Gymdeithas ar y cyd gyda Chymdeithas Amaethyddol Cymru. Teimlaf fod cynnal y gystadleuaeth ynghynt wedi rhoi'r cyfle i'r swyddogion baratoi rhaglen lawn ar gyfer deuddydd y Sioe, gan roi mwy o statws i'r rôl. Galluoga hyn i mi fynychu digwyddiadau amaethyddol ynghynt yn yr Haf hefyd, cyn ein Sioe Sirol ac felly, yn gyfle i hyrwyddo a dosbarthu gwybodaeth a rhaglenni! Yn ogystal â hyn, roedd y drefn newydd yn rhoi cyfle i mi hyrwyddo gwaith y Gymdeithas ymhellach a bûm yn gwneud hyn wrth sgwrsio ar orsaf radio Môn FM ac ar raglen Geraint Lloyd ar Radio Cymru.

Y Sioe Haf oedd pinacl y flwyddyn i mi, heb os. Yn ferch sydd yn byw cwta dwy filltir o gae'r Sioe, gallaf ddweud nad ydw i wedi methu'r un Sioe (neu'r Primin fel ei hadnabyddir gan drigolion yr ynys!) ers fy modolaeth. Mae gen i nifer helaeth o atgofion dros y blynyddoedd, o gystadlu yn y gystadleuaeth Creu Bwgan Brain o dan ddeuddeg oed, cyfarfod y Tywysog William yn y sioe yn 2013 ac arddangos Merlod Mynydd a Chobiau Cymreig ein Bridfa, Trehenlli yn flynyddol. Cefais y fraint o groesawu cynrychiolwr o Lywodraeth Cymru i'r sioe fore'r diwrnod cyntaf cyn cerdded o amgylch y cae gyda swyddogion y Gymdeithas yn sgwrsio gyda stiwardiaid, cystadleuwyr a stondinwyr. Braf oedd cael y cyfle i werthfawrogi'r gwaith caled y tu ôl i'r amrywiol adrannau oedd efallai ddim mor gyfarwydd i mi. Braint oedd cael mynychu Cinio'r Llywydd a'r Noddwyr a bod yn rhan o'r orymdaith yn y Prif Gylch hefyd.

Er hyn, roedd hi'n bwysig i mi gadw mewn cof fy mod wedi cael fy mhenodi fel Llysgennad y Gymdeithas a bod llawer mwy i'r Gymdeithas na'r Sioe Haf yn unig. Mae'r Sioe Aeaf hefyd yn ffenest siop arbennig i amaethyddiaeth yr ynys a braf oedd cael cerdded o gwmpas y sioe yn siarad gyda chystadleuwyr a chystadlu gyda Ffermwyr Ifanc Môn.

Rwyf wedi elwa yn fawr o fod yn Lysgenhades y Gymdeithas. Rwyf wedi dysgu llawer am rediad y Gymdeithas gan fynychu'r pwyllgorau a rhwydweithio gydag eraill yn fewnol ar yr ynys ac ar hyd a lled y wlad. Diolch yn fawr am y fraint ac edrychaf ymlaen at barhau i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gymdeithas.

Pob llwyddiant i'r Gymdeithas i'r dyfodol ac i Caitlin Jones sydd wedi'i phenodi yn Lysgenhades Cymdeithas Amaethyddol Môn 2018-19.





HOGAN
CONCRETE

Cefnogi Cymunedol lleol
Supporting local Community

**T** 01248 353595 **F** 01248 351383
Email: sales@hogan-group.com

**www.hogan-group.com**
ansawddcynaliadwyeddgwasanaeth
qualitysustainabilityservice

Aelod iau y flwyddyn

Fy enw i ydi Elliw Wyn Roberts, rwyf yn 15 mlwydd oed ac yn aelod brwdfrydig o glwb ffermwyr ifanc Rhosybol. Yn ôl ym mis Chwefror fe wnes i gynrychioli clwb Rhosybol yng nghystadleuaeth aelod iau'r flwyddyn. Gofynion y gystadleuaeth oedd cyflwyno ffurflen gryno yn amlinellu fy ngweithgarwch o fewn y mudiad a pharatoi cyflwyniad PowerPoint yn cynnwys fy mhrofiadau yn y CFfI ar lefel clwb a sirol a phrofiadau y tu allan i'r mudiad. Roedd rhaid i mi wneud y cyflwyniad o flaen panel o feirniaid ac ateb cwestiynau am faterion cyfoes a newyddion a oedd yn ymwneud â phobl ifanc. Cyhoeddwyd canlyniad y gystadleuaeth yng nghanolfan Ucheldre, Caergybi. Braint arbennig oedd bod yn bresennol pan gyhoeddwyd fy enw i yn fuddugol fel aelod iau'r flwyddyn ar gyfer Ynys Môn. Cefais dystysgrif a thlws pren mewn siâp Ynys Môn wedi'i ddylunio a'i greu gan gyn aelod o'r mudiad fel gwobr. Cefais hefyd yr anrhydedd o gynrychioli Ynys Môn yn y rownd derfynol genedlaethol. Roedd hyn yn foment annisgwyl iawn ac roeddwn yn teimlo'n falch a hapus ac mae'n rhywbeth y byddaf yn cofio am amser maith. Teithiais drwy eira mawr ym mis Mawrth i Bort Talbot a chynrychiolais yr Ynys yn y gystadleuaeth, ond yn anffodus ni ddois i'r brig y tro hwn ond fe wnes i fwynhau pob eiliad o'r profiad.




Aelod hyn y flwyddyn

Braint oedd cael fy newis gan aelodau clwb Bodedern i fynd i gystadlu yn y gystadleuaeth aelod hyn y flwyddyn CFfI Ynys Môn. Cefais gyfweliad difyr ar gyfer y gystadleuaeth gan lywydd y flwyddyn mudiad Môn a llywydd Cymru sef Tom Jones neu Twm Maes Mawr a Geraint Lloyd. Roeddwn yn ffodus iawn o ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth yma ym Môn ac ymlaen i gystadlu yng Nghymru.
Oherwydd anlwc fawr o storm erchyll gafodd y gystadleuaeth ei ohirio â'i ail drefnu, felly yn golygu gorfod symud lleoliad o'r gogledd holl ffordd lawr i Bort Talbort. Er yr eira mawr unwaith eto troi allan i gystadlu roedd rhaid. Roedd hi'n bwysig iawn creu argraff dda yn y gystadleuaeth felly roeddwn yn "suited and booted" er mwyn edrych y part. Cefais gyfweliad gan banel o dri, sef Glyn Roberts cyn llywydd UAC, Geraint Lloyd Radio Cymru a Diana Davies. Cefais drydydd yn y gystadleuaeth drwy Gymru er mai fi oedd un o'r fenga yn y gystadleuaeth.
Fel aelod hyn y flwyddyn yma ym Môn rwyf wedi bod yn cynrychioli'r mudiad drwy wahanol ddyletswyddau er enghraifft cymryd rhan yn seremoni agoriadol 'Steddfod Môn 2019 drwy gario'r faner eisteddfodol ag arwain yr orsedd i'r seremoni.




Rydym yn falch iawn bod Alaw Jones ac Euros Jones wedi ymuno â thîm yr Undeb yn y swyddfa yn Llangefni. Mae'r ddau yn wynebau cyfarwydd i fudiad y Ffermwyr Ifanc ac yn frwd dros amaethyddiaeth a chefn gwlad. Cysylltwch â hwy unrhyw bryd os am gyngor amaethyddol neu wasanaethau a gwblheir ar ran aelodau.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch swyddfa sirol:

**01248 750250 | ynysmon@fuw.org.uk**

Ffordd Glanhwfa Road, Llangefni, Ynys Môn, LL57 7EN

GWASANAETHAU YSWIRIANT **FUW**

**Ann Harries Jones**
**Gareth Owen**
**01248 750462**
**www.fuwinsurance.co.uk**

*Mwy nag ond brocer yswiriant*
*Mwy nag ond yswiriant fferm*

*Byw yn Lleol? Gweithio yn Lleol?* ***Yswiriwch yn Lleol***

Gwasanaethau Yswiriant FUW yw teitl masnachol FUW Insurance Services Limited. Swyddfa gofrestredig: Llys Amaeth, Plas Gogerddan, ABERYSTWYTH SY23 3BT. Cofrestrwyd yn Lloegr a Chymru o dan rhif 07981993. Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y 'Financial Conduct Authority' o dan Rif Cofrestru 615251.

**Siarad Cyhoeddus Sirol 2018**

Un gystadleuaeth bwysig sy'n hawlio'i lle yn nghalendr y Ffermwyr Ifanc yw'r Siarad Cyhoeddus. Tro yr aelodau o dan un ar bymtheg oedd hi gyntaf a chafwyd noson hwyliog yng nghwmni Merched y Wawr Llynfaes yn neuadd y pentref ar nos Fercher, Ionawr 24ain. Braf oedd croesawu arweinydd y Cyngor Sir, Llinos Medi atom i feirniadu. Llongyfarchiadau i Lia Huws, Llio Hughes a Cerys Parry o Glwb Bodedern am ddod yn fuddugol. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Merched y Wawr Llynfaes am y croeso ac am y wledd a ddarparwyd ar ein cyfer!

Cynhaliwyd y gystadleuaeth nesaf ar nos Fawrth, Chwefror 13eg a thro'r aelodau hynaf oedd hi nesaf. Cawsom y pleser o gwmni Cymdeithas Pensiynwyr Bodffordd y tro hwn yn neuadd y gymuned ac unwaith eto rydym yn hynod o ddiolchgar am y croeso. Hefyd, roeddem yn falch o groesawu Nia Thomas atom fel beirniad. Bu dadlau tanllyd rhwng yr aelodau a llongyfarchiadau i Rhiannon Morgan, Manon Parry, Guto Jones a Gwenno Evans o Glwb Llangefni am ddod yn fuddugol.

Yr aelodau ieuengaf, o dan bedair ar ddeg oedd yr olaf i gystadlu yn y siarad cyhoeddus eleni, gyda'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal ym Mhafiliwn Sioe Môn ar nos Fawrth, Mawrth 6ed. Cafwyd gwledd o gystadlu a braf oedd gweld cymaint o'r aelodau ifanc wedi bwrw ati i ddarllen 'Pluen' gan Manon Steffan Ross. Cafodd y beirniad Mared Lewis gryn drafferth yn dewis y ceffylau blaen ac wedi pendroni daeth Elin Rowlands, Osian Iorwerth a Cerys Tudor o Glwb Llangefni i'r brig. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Rydym yn falch o ddatgan bod y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus wedi bod yn llwyddiant eto eleni ac roedd hi'n galonogol iawn gweld cymaint yn cystadlu ac yn elwa o'r profiad o sefyll o flaen cynulleidfa i areithio, darllen neu ddadlau. Yn ogystal â hyn, roedd hi'n braf cael diddanu cynulleidfa a chymdeithasau lleol ac rydym yn hynod o ddiolchgar i Ferched y Wawr Llynfaes a Chymdeithas Pensiynwyr Bodffordd am y croeso. Mae hi'n braf gweld ein haelodau'n cynrychioli Ynys Môn ar lefel Cymru bob amser ac rydym hefyd yn ddiolchgar dros ben i'r beirniaid am eu cyngor a'u harweiniad, rhywbeth y bydd ein haelodau yn siŵr o elwa ohono yn y dyfodol.








**Siarad Cyhoeddus Cymru**

Diwrnod llawn bwrlwm a hwyl wrth i Ynys Môn deithio lawr i Lanfair-ym-muallt, ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru. Yr oedd gan Ynys Môn dîm yn cystadlu o dan bob oedran, gydag aelodau hen a newydd yn barod i fagu hyder a sgiliau cyfathrebu wrth dorchi llawes a chymryd rhan.

Yr oedd yn braf iawn gweld cynrychiolwyr o aml i glwb yn cyd-weithio, yn ogystal â gweld aelodau newydd yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael oddi fewn yr CFfI. Diolch i chi gyd am gymryd rhan, a'i gwneud yn ddiwrnod llwyddiannus i'r Sir











Rali Ffermwyr Ifanc Ynys Môn 13/05/17

Dydd Sadwrn 13eg o Fai fe gynhaliodd Ffermwyr Ifanc Ynys Môn eu Rali flynyddol ar Faes Sioe Môn, Gwalchmai. Er mwyn hysbysu'r Rali roedd 6 arwydd wedi eu creu a'i gosod gan yr aelodau ar hyd a lled yr Ynys. Llywyddion y dydd oedd Mr Henry a Mrs Carys Jones o Fferm Felin Fach, Llangristiolus. Mawr ddiolch iddynt am ei holl waith caled yn ystod yr wythnos yn beirniadu'r arwyddion ac yn ystod y dydd.
Mae'n bwysig hefyd diolch i'r holl noddwyr wnaeth gefnogi'r diwrnod.
Mae chwe chlwb ar yr Ynys sef Bodedern, Dwyran, Llangefni, Llangoed, Penmynydd a Rhosybol. Mae'r aelodau wedi bod yn brysur iawn dros wythnosau yn darparu tuag at y Rali ac fe welwyd eu gwaith caled ar y diwrnod.
Unwaith eto fe gafwyd diwrnod gwych o gystadlaethau eang o waith coed, crefft, gosod blodau, coginio, cneifio, tynnu rhaff a gwledd o adloniant ar y llwyfan.
Ar ôl diwrnod prysur o gystadlu dyma'r canlyniadau terfynol
Arwydd Hysbysebu'r Rali – 1af Dwyran
Canu - unigol - 1af Twm Tudor, Bodedern
- grŵp - 1af Glesni, Erin, Mared a Llinos, Rhosybol
Cneifio – 1af Owain Lloyd Jones a Owen Evans, Llangefni
Coginio – 1af Glesnir Rhys Jones a Elliw Owen, Rhosybol
Crefft – 1af Mared Jones, Rhosybol
Cyfleu Seremoni Agoriadol - 1af Bodedern
Dawnsio – 1af Bodedern
Dyma Dy Fywyd - 1af Rhosybol
Dylunio Cit Chwaraeon - 1af Rhosybol
Gem Y Cenedlaethau - 1af Mari Bown a Sian Bown, Rhosybol
Gosod Blodau – 1af Elin Fflur Owen, Llangoed
Gwaith Coed – 1af Stuart Jones a Phil Jones, Bodedern
Gwisgo i fyny – 1af Anna Jones a Mari Cemlyn, Llangefni
Lip Sync - 1af Bodedern Hŷn
Llyfr Cofnodion – 1af Bodedern
Llyfr Lloffion – 1af Bodedern
Llyfr Cyfrifon – 1af Penmynydd
Sylwebeth Fyw - 1af Manon Dafydd a Buddug William, Llangefni
Trin Gwlan – 1af Jac Owen Davies, Llangefni
Tynnu Rhaff Dynion –1af Bodedern
Tynnu Rhaff Merched – 1af Llangefni
Tynnu Rhaff Iau – 1af Bechgyn Rhosybol
Ystafell Fawr – 1af Bodedern
Ystafell Fach – 1af Llangefni

**Canlyniadau y Clybiau**

1af Bodedern
2ail Llangefni
3ydd Rhosybol
4ydd Penmynydd (1af o'r clybiau gyda llai 'na 30 o aelodau)
5ed Dwyran
6ed Llangoed

**TLYSAU RALI 2017**

Enillwyr y Rali, Tarian Anglesey Pig - Clwb Bodedern
2il Safle, Tlws W Bowen Thomas - Clwb Llangefni
Clwb gyda llai na 30 aelod, Tlws Gwilym Parry - Clwb Penmynydd
Gwaith Coed, Tlws M & Mrs Morris Jones - Stuart Jones a Phil Jones, Bodedern
Arddangosfa Clwb, Tlws Dinam - Clwb Bodedern
Coginio, Cwpan E G Morris - Glesni Rhys ag Elliw Owen, Rhosybol
Gwisgo Arweinydd, Cwpan NFU - Anna Jones a Mari Cemlyn, Llangefni
Llyfr Cofnodion, Tlws FUW - Clwb Bodedern
Llyfr Lloffion, Tlws Pennant - Clwb Bodedern
Tynnu Rhaff Merched, Cwpan Enid - Clwb Llangefni
Tynnu Rhaff Dynion, Tlws Paget - Clwb Bodedern
Crefft, Cwpan y Ffederasiwn - Mared Jones, Rhosybol
Cneifio, Cwpan E G Hutton - Owain Lloyd Jones ag Owain Evans, Llangefni
Arddangosfa Aelodau Iau, Tlws Gwyn-Môn - Clwb Llangefni











Wedi diwrnod o gystadlu brwd, buan ddaeth hi'n adeg i bawb gael mwynhau'r parti nos. Roedd y noson ychydig yn wahanol y flwyddyn yma, gyda'r fformat yn newid rhyw ychydig. Fe welwyd y bar yn agor yn syth wedi'r cystadlu- cyfle i ambell aelod, ac arweinydd dorri eu syched wedi diwrnod prysur! Y bandiau oedd yn diddanu'r gynulleidfa'r flwyddyn hon oedd Y Brodyr Magee a Calfari, dau fand cyferbyniol iawn, ond y ddau yn hynod adloniannol! Wedi hynny, fe drowyd y peiriant 'ffôm' ymlaen! Trawsnewidiwyd sied Mona i Barti Ffôm, a'r aelodau wedi mwynhau yn arw cael chwarae yn y bybyls!! Noson i'w chofio yn wir!


## Gwesty Dinorben Arms Hotel

Sgwâr Dinorben Square, Amlwch, Ynys Mon Isle of Anglesey LL68 9AL

Ffôn. Telephone: 01-407-830-358 Fax: 01-407-830-671

E-mail: dinorbenarms@yahoo.co.uk

*Pob hwyl i aelodau Ffermwyr Ifanc sy'n cystadlu yn y Rali eleni /*

*Best wishes to all the Young Farmers competing in the Rally this year.*

<u>Diwrnod Gwaith Maes Cymru 2018</u>
Mentrodd dau dîm barnu o'r sir i Ddiwrnod Gwaith Maes CFfI Cymru ar Gae Sioe Amaethyddol y Siroedd Unedig yng Nghaerfyrddin fis Ebrill. Cafwyd diwrnod prysur dros ben yn barnu gwartheg godro, bîff, ŵyn a moch. Llongyfarchiadau anferthol i Cain Owen, CFfI Llangefni ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth Stocmon Iau - pencampwr drwy Gymru! Yn ogystal â hyn, llwyddodd Cain, ynghyd â Lowri Hughes, Leah Edwards ac Alaw Williams, y dair yn aelodau o CFfI Bodedern, i ddod yn drydydd fel tîm barnu iau - gwych genod. Bu canmoliaeth i'r tîm barnu hŷn hefyd ddaeth yn bumed parchus iawn sef Gwenno Evans, Gareth Parry, Ieuan Evans a Phil Jones. Diolch i bawb a fu'n cynrychioli'r sir.







Eisteddfod CffI Sir 2017

Eleni, cynhaliwyd ein Heisteddfod Sir yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy ar Dachwedd 4ydd. Yn dilyn wythnosau byrlymus yn ymarfer (yn enwedig yn ystod yr wythnos cyn yr eisteddfod) cawsom chwip o ddiwrnod! Diolch o galon i'r clybiau i gyd am gystadlu'n frwd a chyflwyno adloniant o'r safon uchaf. Y beirniaid eleni oedd Deilwen Hughes a Gwilym Bowen Rhys – Adran Gerdd, Alwen Jones – Adran Lefaru, Rhian Pierce Jones a Siân Hydref – Adran Lenyddiaeth, Emyr Davies – Adran Ysgafn, Tanya Jones ac Elfyn Jones – Gwaith Llaw a Chelf a Gwilym Looms - Ffotograffiaeth. Rydym yn hynod o ddiolchgar iddynt am eu gwaith caled drwy gydol dydd. Diolch yn fawr i'n Llywydd Sirol, Mr Tom Jones am noddi'r gadair. Llongyfarchiadau gwresog i Teleri Haf Hughes o Glwb Rhosybol am ennill y gadair hardd honno. Yn ogystal â hyn, diolch i'n holl noddwyr. Byddai'n amhosib cynnal eisteddfod hebddoch felly rydym yn hynod o ddiolchgar i chi gyd! Llongyfarchiadau mawr i Glwb Rhosybol am ennill yr Eisteddfod!

**Enillwyr Eisteddfod CFfI Ynys Môn 2017**

| | | |
|---|---|---|
| Rhyddiaith 26 neu iau | Teleri Haf Jones | Rhosybol |
| Brawddeg | Manon Rowlands | Rhosybol |
| Cerdd | Elliw Haf Griffith | Dwyran |
| Cyfansoddi Can | Elain Rhys Jones | Rhosybol |
| Cyfansoddi Drama | Elliw Haf Griffith | Dwyran |
| Cyfansoddi Sgets | Lois Mererid Williams | Bodedern |
| Blog 16 neu iau | Ffion Sian Williams | Penmynydd |
| Ysgrif 26 neu iau | Non Gwenllian Williams | Bodedern |
| Limerig | Llio Mai Hughes | Bodedern |
| Adroddiad Digri 26 neu iau | Non Gwenllian Williams | Bodedern |
| Can Gyfoes 26 neu iau | Elain Rhys Jones | Rhosybol |
| Canu Emyn 26 neu iau | Gwenno Ellis Owen | Rhosybol |
| $2^{awd}/3^{awd}/4^{awd}$ Cerdd Dant | Lisa, Siwan, Glesni ag Erin | Rhosybol |
| Deuawd neu Triawd Doniol | Non a Rhys | Bodedern |
| Ensemble Lleisiol | Lisa, Siwan, Glesni ag Erin | Rhosybol |
| Llefaru 16 neu iau | Erin Telford Jones | Rhosybol |
| Llefaru 21 neu iau | Siwan Mair Jones | Rhosybol |
| Llefaru 26 neu iau | Teleri Haf Jones | Rhosybol |
| Meimio i Gerddoriaeth | Grŵp | Bodedern |
| Parti Deusain | Merched | Rhosybol |
| Parti Llefaru | Grŵp | Rhosybol |
| Perfformio Sgets | Grŵp | Bodedern |
| Stori a Sain | Llio a Rhys | Bodedern |
| Unawd 16 neu iau | Twm Tudor | Rhosybol |
| Unawd 21 neu iau | Gwenno Ellis Owen | Rhosybol |
| Unawd 26 neu iau | Ynyr Llwyd Jones | Llangefni |
| Unawd Alaw Werin | Gwenno Ellis Owen | Rhosybol |
| Unawd Cerdd Dant | Glesni Rhys Jones | Rhosybol |
| Unawd Offerynnol | Elain Rhys Jones | Rhosybol |

| | | |
|---|---|---|
| Unawd Sioe Gerdd | Glesni Rhys Jones | Rhosybol |
| Perfformio Ymgom | Llio Mai a Lois Mererid | Bodedern |
| Celf 26 neu iau | Manon Rowlands | Rhosybol |
| Creu Cerdyn Nadolig | Mared Jones | Rhosybol |
| Ffotograffiaeth18 neu iau | Elliw Mair Huws | Bodedern |
| Ffotograffiaeth 26 neu iau | Llio Hughes | Bodedern |
| Gwaith Coed | Sion Huw | Rhosybol |
| Gwaith Cyfrifiadur | Guto Edwards | Rhosybol |
| Gwaith Metel | Rhys Richards | Bodedern |
| Côr Ynys Môn | | Cymysg |

| | |
|---|---|
| Enillwyr yr Eisteddfod | Clwb Rhosybol |
| Enillydd y Gadair | Teleri Haf Jones, Rhosybol |
| Eitem gerdd orau | Elain Rhys, Rhosybol |
| Eitem llefaru orau | Erin Telford Jones, Rhosybol |
| Eitem ddigri orau | Non Williams, Bodedern |
| Tarian Betws | Enillwyr Cystadleuthau Llwyfan - Clwb Rhosybol |
| Tarian Geufron | Marciau Terfynnol - Clwb Rhosybol |









Eisteddfod Cymru 2017
Yn dilyn eu camp yn yr Eisteddfod Sir, bu’r aelodau llwyddiannus wrthi’n ddygn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod CFfI Cymru oedd yn nwylo Ffederasiwn Eryri. Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Venue Cymru, Llandudno ar Dachwedd 18fed. Braf oedd cael eisteddfod yn weddol agos at adref ac roedd hi’n galonogol gweld cynifer o’r sir yn mynd i gystadlu a chefnogi. Llwyddodd bob un aelod a fynychodd gynrychioli’r sir yn ardderchog. Rydym yn falch iawn ohonynt! Braf oedd gweld llwyddiant yn dod yn ôl i Wlad y Medra gyda Clwb Rhosybol yn dod yn fuddugol yn y Parti Llefaru, Non Gwenllian Williams yn derbyn y drydedd wobr yng nghystadleuaeth yr adroddiad digri, Ffion Siân Williams am ddod yn drydydd am ysgrifennu blog a Twm Tudor am ennill y drydedd wobr yn yr unawd o dan 16eg. Pleser oedd gweld aelodau’r sir yn cyd-dynnu ac yn morio canu yng ngystadleuaeth olaf yr eisteddfod, sef y côr. Llongyfarchiadau mawr i bawb!

Eisteddfod Môn 2019

Braint i ni fel mudiad oedd derbyn cynnig y Llys i drefnu a chynnal Eisteddfod Môn. Rydych i gyd yn ymwybodol ein bod yn trefnu ein heisteddfod ein hunain yn flynyddol, ond mae hi wastad yn braf derbyn her newydd a gwasanaethu’r gymuned eisteddfodol yma ar yr ynys. Yn ogystal â hyn, mae ein heisteddfod ni fymryn gwahanol i’r eisteddfod arferol ac rydym yn croesawu’r dasg sydd o’n blaenau i roi gogwydd ‘Ffermwyr Ifanc’ ar Eisteddfod Môn.
Cynhelir yr Eisteddfod ar Fai 18fed, 2019 yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Ar ben hynny, rydym yn gobeithio trefnu digwyddiadau ychwanegol i hybu’r Eisteddfod. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn bwrw ati i gynnal sawl noswaith hwyliog a chymdeithasol i godi arian gan gychwyn gyda noson i lansio’r testunau yng Nghartio Môn ar nos Iau, Mehefin 28ain. Rydym yn gobeithio y bydd rhywbeth yn y testunau at ddant pawb o’r mudiad ac yn ehangach, fydd yn ysgogi cystadlu brwd ac y daw nifer ohonoch draw atom i Gartio Môn.
Unwaith eto, dymunaf ddiolch o waelod calon ar ran y mudiad am y gwahoddiad i drefnu a chynnal yr eisteddfod ac edrychwn ymlaen at groesawu’r Eisteddfod i Fodedern ymhen blwyddyn.




TR JONES
& SONS
01407 740207
01407 740277
www.trjones.co.uk
Delivering a reliable, local service
for over 100 years...
✓ Heating Oil
✓ Boiler Maintenance
✓ Specialist Lubricants
✓ Agricultural & Industrial Fuels
TR Jones & Sons Ltd
Field Street, Valley, Anglesey, LL65 3EG
Email: info@trjones.co.uk
TR JONES
DAF
CF
YN07 FLW

**Noson Garolau CFFI Ynys Môn**
Cyn y Nadolig roedd hi’n amser i ddigwyddiad blynyddol sydd gan y mudiad yn y calendr pob blwyddyn sef y Noson Garolau. Cynhalwyd y noson ar y 10fed o Ragfyr yng Nghapel Gad Newydd, Bodffordd. Roedd casgliad y noson yn mynd tuag at y Capel a tuag at Deffib ar gyfer y Cae Sioe. Gafodd y noson ei arwain gan Cadeirydd y sir sef Sioned Haf a cafwyd wledd o adloniant gan aelodau’r clybiau. Diolch yn fawr iawn i’r holl aelodau a gymerodd ran ar y noson, roedd canmoliaeth i’r eitemau. Hefyd diolch i’n is-gadeiryddes Non Williams am chwarae’r organ. Wrth gwrs i orffen y noson roedd angen paned a theisen a diolch i glwb Bodedern am ddarparu’r lluniaeth. Yn olaf hoffwn ddiolch yn fawr iawn i’r Capel am y croeso cynnes a diolch yn fawr iawn i’n llywydd y noson sef Mr Elis Wyn Roberts. Roedd yn noson lwyddiannus ac wedi codi dros £200 tuag at yr achosion a pawb wedi mwynhau.

**Noson Cwis**
Cafodd y cwis blynyddol eleni ei gynnal yn Nghlwb Rygbi Llangefni ar y 12fed o Ragfyr 2017. Cafodd y noson ei gynnal gan Huw a Teleri Jones sydd yn gyn aelodau o’r mudiad. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i’r ddau am drefnu’r cwis. Cafwyd noson hwyliog gyda pawb yn mwynhau, a’r cwis wedi ei anelu at bob oedran.

**Noson Pŵl, Dartiau a Thenis Bwrdd**
Ar nos Fawrth y 16ed o Ionawr daeth aelodau o gybiau y sir ynghyd yn Canolfan Bro Alaw i ystadlu mewn campiau pŵl, datriau a thenis bwrdd. Cafwyn noson llawn hwyl a chwerthin. Dyma restr o’r enillwyr:

| | |
|---|---|
| Datriau bechgyn | Ceuron Parry, Rhosybol |
| Dartiau merched | Gwawr Williams, Rhosybol |
| Dartiau dwbwl | Clwb Rhosybol |
| Pŵl bechgyn | Morgan Llyr Williams, Rhosybol |
| Pŵl merched | Cara P Evans, Penmynydd |
| Pŵl dwbwl | Clwb Rhosybol |
| Tenis Bwrdd bechgyn | Gwydion Roberts, Llangefni |
| Tenis Bwrdd merched | Catrin P Evans, Penmynydd |
| Tenis Bwrdd dwbwl | Clwb Llangefni |

**Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn Awst 2018**
Ar y cud gyda Chymdeithas yr Iaith yn ystod y 'steddfod fe gynhaliwyd wythnos 'cyfa o weithgareddau ar fferm Penrhos drwy garedigrwydd teulu Huws. Diolch o galon i Rhys Richards, Arwel "Bych" Roberts a Bob Roberts am ei gwaith caled i baratoi'r bydai er mwyn cael cynnal y fath yma o ddigwyddiad. A diolch i'r ffrindiau o’r ddwy ochor o’r bont am ei help. Cawsom wythnos hynod lwyddiannus gyda'r gwaith caled yn dwyn ffrwyth wrth weld aelodau, ffrindiau ac ymhelwyr i'r eisteddfod yn mwynhau grwpiau fel Bryn Fôn, Geraint Jarman a mwy, hefyd nosweithiau gwahanol fel noson gomedi a noson y beirdd. Roedd elw'r bar yn dod yn ôl i gefnogi'r mudiad. Diolch i bawb am ei gwaith tu ôl i'r bar.
**Iwan Huws**

**Ffasiwn a Ffiz**
Cynhalwyd noson Ffasiwn a Ffis ym mis Tachwedd yn y Neuadd Fwyd yn Cae Sioe Môn. Noson i ymlacio, chwerthin, gwario a chael cwpwrdd dillad newydd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Natwest am noddi’r noson. Diolch i’r dynion a fu’n gweini ar y noson a roedden nhw’n smart iawn yn eu ‘tycs’. Llwyddodd y noson i godi £600 tuag at elusen Tommy’s. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y noson a gwobrau raffl.



Falch o fod yn cefnogi
CFfI Ynys Mon
Proud to support
Anglesey YFC
ForFarmers, the
total feed business
ForFarmers supplies a full range of:
Compound feeds
Blended feeds
Straights
Co-products
Minerals
Buckets
Calf milk replacers
Pet, equine and forage products
Ar gael i'w casglu o Storfa Dinbych
Available to collect from our
Denbigh Store.
For more information call 01745 816391
or email csd.denbigh@forfarmers.eu
Colomendy Industrial Estate,
Denbigh, LL16 5TA
FOR THE FUTURE OF FARMING
forfarmers
the total feed business

**Diwrnod Barnu**

Yn fuan ar fore Sul yr 8fed o Hydref daeth rhai o aelodau y Sir i ganolfan Mona i ddechrau diwrnod hir o farnu. Dechra am 9 gyda holiadur iechyd anifeiliaid cyn mynd draw i Fferam y Llan, Cerrigceinwen i farnu gwartheg godro. Diolch i teulu Roberts am y croeso. yna ymlaen i Ty’n Llan, penmynydd i farnu moch tew a diolch i teulu Hughes am y croeso gawsom. Ganol pnawn ar ddiwrnod hafaidd aethom draw i Castellior i farnu wyn a gwartheg cigydd. Diolch i teulu Jones am y croeso yno ac i Wyn am y ‘ffarm walk’ i rhai o’r tadau. I ddarfod y dydd aethom draw i’r Anglesey Arms am swper a chael canlyniadau’r dydd. Diolch i holl feirnaid a stiwardiaid y dydd.

Dyma rester o’r enillwyr:

| | |
|---|---|
| Barnu wyn tew dan 26 | Ieuan Evans, Bodedern |
| Barnu wyn tew dan 18 | Cain Owen, Llangefni |
| Barnu moch dan 26 | Ieuan Evans, Bodedern |
| Barnu moch dan 18 | Alaw Williams, Bodedern |
| Barnu gwartheg bîff dan 26 | Non Williams, Bodedern |
| Barnu gwartheg bîff dan 18 | Cain Owen, Llangefni |
| Barnu gwartheg godro dan 26 | Non Williams, Bodedern a Sarah Tudor, Rhosybol |
| Barnu gwartheg godro dan 18 | Alaw Williams, Bodedern a Cain Owen, Llangefni |













**Adroddiad Clwb Bodedern**
Pleser llwyr oedd cael fyn ethol gan fy nghyd aelodau o glwb Bodedern i gymryd y blaen a chadeirio'r clwb am y flwyddyn hon. Rwyf wedi gwir mwynhau pob eiliad, pob cyfle a pob her rwyf wedi cael yn fy swydd. Rydym yn glwb gweithgar a thalentog iawn gydag aelodau, arweinyddion, rhieni a ffrindiau triw a chefnogol.
Anodd yw coelio bod amser rali Ffermwyr Ifanc Môn wedi ein cyrraedd unwaith eto a bod y flwyddyn wedi hedfan yn sydyn iawn. Ar ôl gymaint o lwyddiant gan glwb Bodedern yn rali llynedd ymlaen a ni i'r sioe frenhinol. Roedd aelodau'r clwb yn mwynhau'r sioe'n arw drwy gymryd rhan mewn amryw o gystadlaethau yn cynnwys er enghraifft dawnsio, a choeliwch chi fi bod yr hogia wedi gwir mwynhau dawnsio mewn twtws pink ar lwyfan y sioe! Ond er y strach o orfod myd a bocs yr arddangosfa holl ffordd lawr i'r sioe roedd y gwaith called yn dangos pan gafwyd ail drwy Gymru.
I ychwanegu at ein prysurdeb arferol i ddilyn y sioe frenhinol fe laniodd Eisteddfod Genedlaethol Cymru i Fôn ag i ardal ein clwb. Dros wythnos yr ŵyl ac yr wythnosau o flaen llaw roedd nifer iawn o'n haelodau a chefnogwyr yn brysur iawn yn ymarfer neu yn paratoi i gymered rhan neu stiwardio ym mhob agwedd o'r eisteddfod.
Cyn darfod yr haf a chadw'r eli haul roedd deuddydd pwysig iawn i'n mudiad sef sioe Môn. Roedd lawer i aelod yn cymered rhan yn babell ar gae'r sioe yn denu'r cyhoedd a'i diddanu er mwyn dangos be ydi Ffermwyr Ifanc Môn a be rydym yn neud.
Cyn troi roedd mis Medi wedi ein cyrraedd a chychwyn ar flwyddyn newydd, a phleser mawr oedd medru croesawu nifer o aelodau newydd i'n plith. Cawsom nifer o nosweithiau diddorol gydag ymwelwyr yn dod i'n diddanu ni, o nosweithiau ffitrwydd a gemau i addurno cacennau a pheintio wynebau i ymweld â ffermydd a llawer mwy. Ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb rhoddodd eu hamser i ni.
Y gystadleuaeth gyntaf yn y flwyddyn oedd diwrnod gwaith maes y sir a gyda nifer o aelodau yn cael y cyfle i gystadlu mewn amryw o bethau. A pa ffo'r gwell i gychwyn aelodau newydd na rhoi'r cyfle iddynt cymerud rhan yn y gystadleuaeth codi ffens?
Sydyn iawn roedd prysurdeb yr eisteddfod sirol yn cychwyn gyda phob aelod o'r clwb yn cymeryd rhan mewn nifer o gystadlaethau gwahanol. Roedd holl waith called yr aelodau yn dangos ar y diwrnod, o waith cartref o flaen llaw sef ysgrifennu, arlunio neu waith crefft i ganu neu berfformio ar y llwyfan. Cawsom lwyddiant haeddiannol mewn nifer o gystadlaethau ac ambell i aelod neu grŵp yn cael y cyfle i fynd ymlaen i Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru. Roedd hin bleser llwyr gweld nifer o aelodau ifanc newydd yn cael perfformio ar lwyfan Venue Cymru a chynrychioli ein sir. Hefyd er y paent pinc a'r cynffon roedd hi'n bleser personol cael perfformio'r ddeuawd ddoniol wedi gwisgo fel mochyn ar ran y sir.
Yna roedd rhaid mynd oddi ar y llwyfan i'r sied wartheg gan fod hin Sioe 'Aeaf Môn arnom. Roedd nifer iawn o'n haelodau yn cymerud rhan ar y diwrnod unai yn y gystadleuaeth barnu neu yn dangos stoc yng nghylch y Ffermwyr Ifanc. Pleser oedd gweld y cotiau gwyn yn cael mynd lawr ffair aeaf Cymru gyda chriw yn mynd yno i gynrychioli'r sir.
Ar ôl toriad byr dros y Nadolig cafodd clwb Bodedern y fraint o gynnal noson y gystadleuaeth pwl, darts a thenis bwrdd. Braf oedd gweld nifer o aelodau o glybiau erill yn dod atom ni i gymdeithasu ynghyd a chystadlu.
Pan ddoeth amser yr adloniant roedd yn golygu bod rhaid ysgrifennu a chyfarwyddo pantomeim. Wel yn sicr mae clwb Bodedern yn ddigon o banto yn ei hun. Felly

gawsom greu'r pantomeim gyda digon o hwyl, digon o ddrygioni, ddigon o ganu a dawnsio a lot fawr o chwerthin. Roedd cynhyrchu'r panto yn hwyl dros ben ac roedd hin gyfle i ddangos gallu ein haelodau i berfformio ar lwyfan o flaen gynulleidfa. Cawsom ail yn y gystadleuaeth sirol ond dwi’n siŵr fasa ni ar y brig oni bai fy mod wedi gorfod canu unawd!
Ar noson y pantomeim gafodd gwobrau’r aelod hyn ac iau'r flwyddyn eu cyflwyno, ac rwy’n hynod o falch o dderbyn y wobr am aelod hyn y flwyddyn dros Sir Fôn a chael mynd lawr i gystadlu yng Nghymru lle gefais drydydd.
Roedd hin ddechrau ar gystadlaethau siarad cyhoeddus y sir a gafodd eu cynnal ar amryw o nosweithiau mewn lleoliadau gwahanol gyda chynulleidfa gefnogol iawn ym mhob lleoliad. Rydym yn saff bod ein haelodau ni yn medru trafod a dadlau yn ddi fael felly cafwyd llwyddiant yn y gystadleuaeth ar draws oedrannau gwahanol. Pleser oedd cael mynd fel rhan o dîm Ynys Môn lawr i’r gystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru a chael cynrychiolaeth dda iawn yno dros y sir.
Rydym yn glwb gweithgar sydd yn manteisio a'r cyfleoedd i godi arian i elusennau a chefnogi ein cymunedau. Rydym wedi gwneud gweithgareddau i godi arian ac yn trefnu rhai ar gyfer y dyfodol. Hefyd drwy gynnal parti clwb roedden yn rhannu'r elw gyda’r elusen sirol ac yn falch iawn o hynny!
Mae wastad croeso i aelodau newydd o unrhyw gefndir ymuno a ni ar gyfer manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ac i  ddatblygu’n bersonol. Rydym yn cyfarfod yng Nghanolfan Bro Alaw yn Ysgol Uwchradd Bodedern bob nos fawrth am 7.30yh.
Hoffwn ddiolch am y flwyddyn a dymuno yn dda i bawb fydd yn cystadlu yn y dyfodol ar ran y clwb Bodedern neu Ynys Môn.



# LLECHWEDD MEATS

**Come on down, the Price is Right!**

**The Largest Display of Meat in North Wales**

**Welsh Beef & Lamb, Pork, Poultry plus Welsh Produced Sausages, Bacon & Gammon and our range of Cooked Meats**




Opening Hours: Mon-Wed 9am to 5:30pm, Thu-Sat 9am to 6pm, Sun 10am to 4pm

Llechwedd Meats, Parc Bryn Cefni, Llangefni, Anglesey, LL77 7JA

Tel: 01248 722452 Order online for Home Delivery at llechweddmeats.co.uk

**Adroddiad Clwb Dwyran**

Mae'n amser yna'r flwyddyn unwaith eto gyda aelodau CFfI Dwyran yn prysur baratoi ar gyfer diwrnod Rali CFfI Ynys Môn – mae amser yn hedfan!

Am glwb bychan, mae'n hynod o galonog i gael gweld y brwdfrydedd sydd gan bob aelod. Mae pob aelod yn hynod o weithgar ac yn mwynhau cael y cyfle i droi eu llaw at unrhywbeth, fodd hynny yn cynrychioli'r clwb mewn cystadlaethau neu i gyfrannu mewn pwyllgorau. Rydym ar ein ail blwyddyn bellach yn Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel, sy'n leoliad gwych i ni fel clwb gyda'r cyfleusterau sydd ar gael yno.

Mi roedd Rali 2017 'Chwaraeon' yn llwyddiannus iawn i CFfI Dwyran ar y cyfan gyda'r clwb yn llwyddo i ddod yn ail agos i CFfI Penmynydd ar gyfer tarian i'r clwb dan 30 o aelodau gyda'r marciau uchaf. Llongyfarchiadau mawr i CFfI Penmynydd! Mi fu'r holl aelodau yn mwynhau cael cymryd rhan yn y diwrnod, yn enwedig yn y cysadleuaeth tynnu rhaff, oh a'r ddawns wrth gwrs gyda'r parti sebon yn plesio'r aelodau hyn mwy na'r aelodau iau!

Daeth yr amser ym Mehefin i gynnal Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y clwb, gyda'r aelodau'n fy ethol i barhau fel Cadeirydd y clwb am flwyddyn arall. Cafodd Deio Hughes ei ail-ethol yn Is-Gadeirydd -diolch i ti Deio am dy gefnogaeth drwy'r flwyddyn! Fe barhaodd Llinos Foulkes fel Ysgrifennyddes ar y cyd gyda Siân Roberts yn parhau fel ein Trysorydd. Mae dyled y clwb i'n harweinyddion yn enfawr gyda diolch arbennig i Dafydd Foulkes, Sian Morgan Owen, Pingw a Geraint Roberts Cefnarthen am eich cefnogaeth di-ddiwedd.

Mi roedd yr haf yn gyfnod tawel o ran y clwb, er bod yr aelodau wedi bod yn hynod brysur gyda'r Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru ym Modedern a Sioe Môn – tri ddigwyddiad llawn bwrlwm gydag aelodau Dwyran yn dangos eu doniau unwaith eto trwy ddangos stoc, coginio a celf a chrefft. Bu'r aelodau yn ofnadwy o brysur dros gyfnod yr haf yn cyd-weithio gyda aelodau eraill y sir i gynnal bar yn Gigs Cymdeithas yn Penrhos ac hefyd yn cystadlu ac yn cynrychioli'r sir yn y Côr ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd yr wythnos yn glod mawr i aelodau CFfI Ynys Môn.

Daeth blwyddyn Jane Foulkes, Bodowyr fel Llywydd CFfI Môn 2016-17 a minau fel Cadeirydd CFfI Môn 2016-17 i ben yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CFfI Ynys Môn. Braf oedd cael croesawu Glyn Dylassau i'n plith fel Siaradwr Gwadd.

Mi ddaeth mis Medi yn sydyn gyda'r clwb yn ail-ddechrau ar ôl cyfnod yr haf ac braf oedd cael croesawu aelodau newydd i'n plith. Buan a ddaeth penwythnos Cyfarfod Cyffredinol CFfI Cymru yn Aberystwyth gyda cynrychiolaeth o'r Clwb yn bresennol. Mi fues i'n ffodus eleni i gael fy ethol fel Cadeirydd Is-Bwyllgor Marchnata a Digwyddiadau CFfI Cymru ac hoffwn ddiolch i holl aelodau CFfI Dwyran am eu cefnogaeth.

Yr Eisteddfod oedd y digwyddiad nesaf yn y calendr a'r holl aelodau unwaith eto yn rhoi sioe dda ymlaen - roedd diwrnod yr Eisteddfod yn esiampl berffaith o sut mae aelodau Dwyran yn cyd-weithio a chefnogi ei gilydd, gan fwynhau ar yr un pryd. Elliw oedd seren y dydd i glwb Dwyran wrth iddi serennu ar y llwyfan a dod i'r brig gyda'r canu emyn. Llongyfarchiadau mawr i ti Elliw!

Gyda'r Eisteddfod allan o'r ffordd, y Ffair Aeaf ddaeth nesaf gydag nifer o aelodau'r clwb yn cymryd rhan yn Ffair Aeaf Môn a Chymru wrth farnu stoc a gyda gwaith crefft. Daeth 2017 i ben gyda noson hwyliog yn Nathliad Llywydd a Chadeirydd CFfI Môn yng Ngwesty Bae Trearddur. Bwyd blasus, cwmni gret ac lot o ddawnsio! Hoffwn i a Jane ddiolch i bawb a ddaeth i ymuno hefo ni i ddathlu.

Un o ddawniau eraill aelodau Dwyran ydi siarad, gyda Sian yn dangos sut mae gwneud ac yn cael ei dewis i gynrychioli Ynys Môn fel rhan o'r tim dan 26 a aeth i lawr i Lanelwedd i gystadlu gyda CFfI Cymru.

Uchafbwynt y clwb eleni ydi'r pantomeim ar y cyd gyda aelodau CFfI Llangefni, wrth iddynt ddod i'r brig yng nghystadeuaeth adloniant CFfI Ynys Mon a cael y fraint o gynrychioli'r sir yng Ngwledd Adloniant CFfI Cymru! Camp sydd heb ei chyflawni ers tro maith! Llongyfarchiadau enfawr i Sian ac Elliw ac aelodau CFfI Llangefni ar eu llwyddiant.

Braf oedd cael ymuno hefo Sioned Haf a Tom Maesmawr wrth iddynt deithio o amgylch clybiau CFfI Ynys  Mon ar eu taith tractorau!
Mae llwyddiant y clwb dros y flwyddyn yn glod i bob un o'r aelodau ac hoffwn ddiolch i chi gyd am eich gwaith caled ac am wneud fy mlwyddyn, fel Cadeirydd, yn un hynod gofiadwy.
Rydym yn cyfarfod yn wythnosol ar nos Lun yn Ysgol Parc y Bont, Llanddaniel am 7:30 y.h. ac mae croeso cynnwys i unrhyw aelod newydd rhwng 10 a 26 ymuno a ni.
***Sioned Elin Edwards, Cadeirydd CFfI Dwyran 2017-2018***






**Adroddiad Clwb Llangefni**

Blwyddyn arall wedi hedfan ac mae wedi bod yn flwyddyn brysur a llawn hwyl i aelodau Clwb Llangefni. Fe ddechreuom y flwyddyn gyda noson hwyliog o gemau a gwledda ar pizza’s. Yr wythnos ganlynol cawsom y pleser o ymweld â Fferm Cefnmaesoglan, Brynsiencyn. Roedd pawb yn awyddus  i weld y gwartheg jerseys yn cael eu godro, ond nid yn y ffordd draddodiadol mewn parlwr ond gan robotiaid. Agoriad llygaid a phrofiad i'w gofio i’r holl aelodau!!

Yna daeth y diwrnod gwaith maes lle daeth Huw a Gwydion yn drydydd yn y gystadleuaeth Fferm Ffactor iau. Llongyfarchiadau i’r ddau.

Digwyddiad mawr yng nghalendr y mudiad yw’r Eisteddfod, ac mae'n wir i ddweud fod yr eisteddfod yn dod a phawb at ei gilydd, gan annog pawb i gymeryd rhan yn y meim, ac ambell i aelod yn cymryd rhan yn y côr. Llwyddodd Ynyr i ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth unawd o sioe gerdd gan fynd ymlaen i’r eisteddfod fawr a gynhaliwyd yn Venue Cymru yn Llandudno.

Ar ôl yr holl gystadlu cawsom drip i Hufenfa De Arfon yn Chwilog lle cawsom weld y broses o gynhyrchu caws. Noson ddiddorol iawn gyda chwis bach ar y diwedd a'r gwobrau oedd? Ia rydych yn iawn...... lwmp o gaws blasus iawn!!

Wedyn dyma ni yn nesáu at y Nadolig, amser prysur iawn eto i’r clwb, noson o ganu carolau ac eitemau Nadoligaidd yng ngartre Rhos, Malltraeth ddaeth gyntaf. Yna noson garolau'r mudiad yng Nghapel Gad Bodffordd lle gefais i ac Ynyr y gwahoddiad i gymryd rhan.

Heb os uchafbwynt y flwyddyn i Glwb Llangefni oedd cystadleuaeth y pantomeim. Dyna i chi beth oedd hwyl. Sgript wreiddiol gan Menna Cwyrtai yn adrodd hanes Madam Wen, ond




gyda thwist modern a chyfredol iawn. Na doedd gan yr hen Fadam wen ddigon o arian i dalu’r rhent i’r Sgweiar cas, felly ffwrdd a hi i’r Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern a’i bryd ar ddwyn y Goron, neu yn eiriau Madam Wen, ‘Bling Cymru’. Roedd dawnswyr y ddawns flodau yno, yr archdderwydd ar orsedd, ynghyd a chynrychiolwyr o Batagonia yn seremoni Cymru ar Byd. Digon o hwyl a chanu.  Beirniad Linda Brown a chipio’r wobr gyntaf. Roedd angen mynd ymlaen i Rhyl i’r ffeinal Cymru ond yn anffodus daeth yr eira'r un diwrnod a bu raid gohirio. Aberhonddu fu raid i ni fynd yn y diwedd i’r ffeinal a chael hwyl dda arni yno hefyd. Pawb yn canmol. Dyna’r rheswm i ni benderfynu gwneud dau berfformiad arall un yn Llanddeusant ar llall yng Ngaerwen. Llenwi dwy neuadd ddwy noson. Gwych. Diolch i griw bach Dwyran fu’n ein cefnogi am eu doniau a’u cyfeillgarwch.

Mae’r tîm siarad cyhoeddus wedi cael llwyddiant eleni gyda’r tîm dan 26 yn dod yn fuddugol yn Ynys Môn, a Manon a Rhiannon yn cael eu dewis i gynrychioli’r sir yn rownd derfynol Cymru yn Llanelwedd. Bu’r tîm dan 14eg hefyd yn fuddugol, ar ail dim yn dod yn ail. Dewiswyd Ceris Tudor, Osian Iorwerth a Non Cwyrtai i gynrychioli’r sir. Llongyfarchiadau i’r criw siaradus.

Enillodd Cain stocmon iau'r flwyddyn dros Gymru, llongyfarchiadau iddi am ei champ.

Cafwyd nosweithiau diddorol yng nghwmni Môn ar Lwy, ymweliad a chwmni Emyr Evans, a Fferm Grugeran i weld y gwartheg Stabilisers.

Yr wythnosau diwethaf 'ma mae pawb wedi bod yn brysur yn paratoi am y Rali. Edrych ymlaen am ddiwrnod da o gystadlu a chael hwyl i Glwb Llangefni.

Diolch i Manon am drefnu’r nosweithiau. I Carol a Bob am eu parodrwydd i gefnogi bob amser â'n cynorthwyo pan fo angen. Diolch i’r rhieni am eu cefnogaeth ac am fod yn yrwyr tacsi pob hyn a hyn.

Mae Clwb Llangefni yn cyfarfod ar Nos Lun am 7:30 yng Nghanolfan C.Ff.I Ynys Môn ar faes Sioe Môn.

## UNDEB CENEDLAETHOL YR AMAETHWYR
### CANGEN YNYS MÔN

NFU Mutual

32 Stryd yr Eglwys,
Llangefni
Ynys Môn

**Ffôn: 01248 723142**
**Ffacs: 01248 750461**

Gwyn Thomas a
Emyr Davies

POB DYMUNIAD DA I'R MUDIAD YN Y DYFODOL.

# CLUDWYR ANIFEILIAID
# LIVESTOCK CARRIERS

## W.M. & E.P. WILLIAMS & SON

Bryn Farm, Pentraeth, Ynys Môn
01248 450233
07831 321677



**Adroddiad Clwb Llangoed**

Wel mae Blwyddyn arall wedi mynd heibio. Mae pawb yn dechrau prysuro paratoi ar gyfer Rali 2018 .

Braf oedd cael aelodau yn cymeryd rhan mewn nifer o gystadlaethau yn Rali 2017.

Aeth Elin Owen ymlaen i Lanelwedd ym mis Gorffennaf gyda chystadleuaeth gosod blodau .

Cawsom wadd gan glwb Penmynydd i noson ar draeth Benllech gyda barbeciw a gemau , braf oedd cael ymuno a nhw yno .

Daeth mis Medi digon sydyn ar ôl gwyliau haf ac roedd pawb yn edrych ymlaen at nosweithiau clwb ail ddechrau .

Un uchafbwynt oedd cael cystadlu yn yr eisteddfod a braf iawn oedd cael ail ar y meim gyda cherddoriaeth .

Cymerodd pedwar aelod rhan yng ngwasanaeth Nadolig yng Nghapel Llanddona .

Braf oedd unwaith eto cael yr aelodau i gymered rhan yng nghwis Nadolig ac wrth gwrs dod yn ail.

Aeth pedwar aelod at Katie Hayward "Felin Honey Bees" a braf oedd cyfarfod a Ruth Wignall a oedd yn ffilmio rhaglen teledu Coast and Country yna . Roedden yn enwog am ychydig o funudau ar y teledu .

Cawsom lawer o nosweithiau diddorol gyda gwneud pitsa ,crempogau a noson blasu bwyd sieiniaidd i ddathlu eu Blwyddyn Newydd nhw ynghyd a cwn yn dawnsio i gerddoriaeth.

Daeth llawer o westeion atom i gynnal nosweithiau a hefyd braf oedd gwahodd clwb Penmynydd atom i noson cwis .

Penderfynwyd bod angen codi arian i'r clwb felly cawsom werthu pethe yn ffair Haf a ffair Nadolig y neuadd bentref. Ond ym mis Ebrill penderfynwyd codi arian i'r clwb ac i MS trwy neud diwrnod pobi Pasg neu bake off i rai pobol ac "WAW, son am nifer o bobol ddaeth i gystadlu ac i'n cefnogi. Fe godwyd swm o £630.00 i rannu i'r clwb ac I MS .

Aeth dau aelod i drio yn y barnu am y tro cyntaf gobeithio gweld mwy o'r aelodau yn y barnu nesaf .

Os oes gan unrhyw un ffansi ymuno a'r clwb ,dewch draw i neuadd bentref Llanddona nos lun 7.30 - 9.00yh. Yr oedran ymaelodi ydi 10-26



**Adroddiad Clwb Penmynydd**

Tydi amser yn fflio dw’ch…. ’time flies when you’re having fun’ medda’r Sais! A dyna’n union fu hanes y clwb dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hon yn ail flwyddyn imi fel Cadeirydd y Clwb a dwi’n hollol gredu fod ganddom lawer mwy o lwyddiant a hwyl i ddod.

Gai ddechrau hefo Rali 2017 - PAWB yn cystadlu a PHAWB di cael hwyl. Uchafbwynt y dydd oedd iddyn ennill y Darian Clybia Bach. Roedd ein gwaith caled wedi talu, ac yn sylfaen gwerth chweil at flwyddyn arall.

Clwb bach ac ifanc iawn ydan ni, ond mi allai eich sicrhau ein bod yn mwynhau. Yn syth ar ôl y Rali llynedd cafon barti yn yr ganolfan er mwyn dathlu ein llwyddiant, wedyn trip i Mona Tractors LLanystymdwy ac yna barbeciw ar draeth Benllech ar y cyd hefo Clwb LLangoed a Clwb Dwyran.

Dros yr hâf cawsom y fraint o estyn croeso i ymwelydd o’r Almaen – Manuel. Bu yn aros acw am wythnos a diolch yn fawr i aelodau y clwb am fynd a fo o gwmpas ein Sir. ‘Roedd Manuel hefo ni dros amser cyffroes yr Eisteddfod Genedlaethol, ble bu ambell i aelod (hen ac ifanc!) yn helpu ar y bar ym Mhenrhos i godi arian at y mudiad. Yna yn syth a ni i Sioe Môn ble cafwyd hwyl a sbri unwaith eto.

Ym mis Medi roedd rhaglen ddiddorol wedi eu threfnu ar ein rhan gyda nosweithia clwb yn cynwys: Dylan Castellior yn ymarfer barnu, trip i fferm Cefnmaesoglan LLangaffo, Bedwyr Williams yn siarad am ei brofiad o deithio i Canada gyda CFFI, trip i Felin Honey Bees, sgwrs gan Paramedic ac noson goginio i enwi rhai.

Be yda ni yn gael o fod yn aelod o CFFI? Dyna y cwestiwn mae llawer yn ofyn imi. Yn bendant, magu hyder a profiad – braf ydi gweld pobl ifanc yn ymuno hefo’r clwb, ond brafiach byth ydi gweld y ffordd mae nhw yn datblygu wrth gymryd rhan. Mae hyn yn gallu amrywio o griw o hogia ifanc di brofiad yn dawnsio’n wirion ar lwyfan y Rali neu mentro i ganu yn wirion ar lwyfan ein Eisteddfod, neu mynd I farnu stoc neu Siarad Cyhoeddus am y tro cyntaf. Mae gweld ein aelodau yn tyfu ac yn datblygu yn meddwl cymaint, a braint imi eleni oedd sylwi fel mae pawb wedi tyfu ac yn fodlon cymryd rhan. Dyma ydi’r diolch mwyaf sydd na I criw Penmynydd.

Bu pob aelod yn cystadlu ar lwyfan y Steddfod, a bu aelodau yn cystadlu ym mhob cystadleuaeth barnu. Braf oedd gweld Tîm Siarad Cyhoeddus o dan 14 oed – diolch I Harvey, Dylan a Gethin am fentro. Ac hefyd tîm ar y cyd hefo Llangoed o dan 26 gyda Cara, Rhys a fi yn ymuno hefo Tesni. Tydi Rhys ond 16 mlwydd oed ond mi gafodd ganmoliaeth a chlod gan y beirniad am ei dalent.

Mae codi arian yn hynod bwysig i’r clwb gan ein bod yn gorfod talu am ein cartref wythnosol yn Neuadd Penmynydd. Aethom ati i drefnu nosweithiau codi arian – noson hefo Gethin Robyns a’r Moniar’s yn Welmans ym mis Tachwedd, Ocsiwn Addewidion yn Cinio’r LLywydd ac yn fwy diweddar noson Bingo yn yr Ganolfan. Mi fydd mwy o nosweithiau fel hyn i ddod!

Mae’r diolch yn fawr i Swyddogion y Clwb am eu cefnogaeth eleni, ac hefyd i’r aelodau. Braf oedd gallu croesawu 4 aelod newydd sy’n barod wedi mentro i gystadlu ac helpu at yr achos. Croeso i Nia sydd wedi ymuno fel arweinydd clwb eleni a diolch iddi am helpu Rhian i gadw trefn ar betha dros yr misoedd diwethaf. Bu amser i ffarwelio a Mandy oedd hefyd wedi bod yn gefnogol iawn yn ei hamser fel arweinydd.

Yn arwain at y Rali eleni, mae cefnogaeth y rhieni wedi bod yn wych. Mae hyn yn tynnu pwysa oddi ar rhan fwyaf o’n aelodau sy’n brysur yn canolbwyntio ar eu arholiadau – pob lwc ichi bois!

Diolch i pawb sydd wedi rhoi ei hamser i Clwb Penmynydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Un peth allai addo i chi am fod yn aelod o glwb bach ydi fod pawb yn cael cyfle a diolch i'r drefn ym Mhenmynydd mae pawb yn cymryd y cyfle.
Buasai'r clwb yn hynod falch o groesawu aelodau newydd – dewch draw i'r ganolfan ar nos Lun am 7.30 yh – bydd croes mawr i chi!
Will Hughes, Cadeirydd






**Adroddiad Clwb Rhosybol**

Dyma ni, blwyddyn wedi hedfan ac mae'n amser Rali unwaith eto. Braint oedd cael; fy ethol yn gadeiryddes Clwb Ffermwyr Ifanc Rhosybol eleni. Rydw i wedi bod yn andros o ffodus o gael aelodau, swyddogion, arweinyddion a rhieni gweithgar a brwdfrydig. Braf oedd gweld bod nifer aelodaeth y clwb dal i gynyddu'r flwyddyn yma.

Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn yn y clwb unwaith eto eleni.

Dechreuwyd y flwyddyn gyda'r clwb yn cael llwyddiant ysgubol yn yr eisteddfod gyda'r aelodau yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau o waith cartref i gystadlaethau llwyfan. Yn dilyn eu holl waith caled braint oedd gweld y clwb yn dod i'r brig ymysg clybiau Môn, a'r gadair yn cael ei chipio gan Teleri Haf. Aeth 9 o gystadlaethau o Rosybol ymlaen i gynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Cymru a gafodd ei gynnal yn Venue Cymru, Llandudno. Daeth y parti llefaru yn gyntaf a daeth Twm yn drydydd gyda'i unawd drwy Gymru

Wedi'r flwyddyn newydd, aethom ymlaen i baratoi tuag at y Pantomeim. Buom yn hynod ffodus o Carwyn Jones ein hysgrifennydd a fu'n brysur yn cynhyrchu a chyfarwyddo'r panto. Ar noson y panto, enillodd Gareth Parry wobr am yr actor gorau. Hefyd, cyhoeddwyd aelod hyn ac iau'r flwyddyn. Pleser oedd cael darganfod mai Elliw Roberts o Rosybol gafodd ei dewis yn aelod iau eleni.

Gwelwyd nifer o aelodau'r clwb yn cystadlu yn y diwrnod gwaith maes. Cafwyd llawer o lwyddiant ymysg aelodau'r clwb mewn cystadlaethau barnu ar hyd y flwyddyn megis y diwrnod gwaith maes, ffair aeaf a'r barnu tuag at y rali. Bu Elliw Roberts yn llwyddiannus gyda barnu gwartheg cigyddion yn y ffair aeaf yn Llanelwedd, daeth yn gyntaf ac enillodd yr araith orau o dan 16.Bu nifer yn llwyddiannus ac yn cynrychioli'r Sir drwy Gymru yn unigol ac mewn timau o wahanol oedrannau.

Cynhaliwyd nifer o nosweithiau diddorol yn y clwb eto eleni megis trip i ymweld â fferm odro Cefn Maesoglan, noson o ymwybyddiaeth Alcohol, noson creu crefftau Nadolig a nosweithiau ar y cyd gyda chlybiau eraill, trip i'r hwylfan yng Nghaernarfon gyda chlwb Llangefni a noson o rownderi a phêl-droed gyda chlwb Bodedern.

Pob lwc i'n his-gadeirydd a'n haelod hynod werthfawr Gareth Parry, fydd yn hedfan am Seland Newydd yr wythnos nesaf i weithio.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r aelodau am eu brwdfrydedd, i'r gwesteion am eu hamser ac i holl ffrindiau ac arweinyddion y clwb am eu cefnogaeth barhaol drwy gydol y flwyddyn. Cofiwch fod croeso i unrhyw un ymuno a ni bob nos Fawrth am 7:30yh yng Nghanolfan Rhosybol. Pob lwc i bawb yn Rali 2018! **Lowri Ellis Owen**



# WYNNSTAY

The sign that serves the rural community

**Yr arwydd sydd yn gwasanaethu y gymuned wledig**









## Arable • Feed • Retail

Animal Feeds, Grassland & Arable, Agricultural Supplies, Equestrian Products, Animal Health, Gardening, Pet Food, Clothing & Shooting

www.wynnstay.co.uk

*Good Quality, Good Value, Good Advice*

Tel: 01691 828512 • Fax: 01691 828690 • Email: info@wynnstay.co.uk

**WILLIAMS & GOODWIN**

**THE PROPERTY PEOPLE**



# Llywyddion Sirol 1981/82 – 2017/18

| | |
|---|---|
| 1981 - 1982 | Mr Leslie Lloyd Jones, 26 Ffordd Stanley, Caergybi |
| 1982 - 1983 | Mr Glyn Williams, Deudraeth, Valley |
| 1983 - 1984 | Mr Bryner Jones, Coleg Pencraig, Llangefni |
| 1984 - 1985 | Mr W. S. Moore, Meusydd, Lôn Glanhwfa, Llangefni |
| 1985 - 1986 | Mr W. T. Jones, Castellior, Porthaethwy |
| 1986 - 1987 | Mr W. R. Williams, Ynys Isaf, Brynteg |
| 1987 - 1988 | Mr W. T. Hughes, Betws, Cemaes |
| 1988 - 1989 | Mr H. Evans, Rhosbadrig, Tŷ Croes |
| 1989 - 1990 | Mr T. A. Owen, Plas Eilian, Llaneilian |
| 1990 - 1991 | Mr J. Foulkes, Marchynys, Penmynydd |
| 1991 - 1992 | Mr Arwel V. Jones, Glan Morfa, Pencarnisiog |
| 1992 - 1993 | Mr Geraint F. Roberts, Tai Hen, Rhosgoch |
| 1993 - 1994 | Mr Martin Williams, Gorwel Deg, Bryngwran |
| 1994 - 1995 | Mr Alwyn Jones, Rhosboeth, Benllech |
| 1995 - 1996 | Mr John C. Jones, Cafnan, Cemlyn |
| 1996 - 1997 | Mr Dafydd Owen, Glan Llyn, Llanedwen |
| 1997 - 1998 | Mr a Mrs R. Davies, Quirt Farm, Dwyran |
| 1998 - 1999 | Mr Eifion Huws, Penrhos, Bodedern |
| 1999 - 2000 | Mr a Mrs G Stuart, Rhyd Dafydd, Rhosgoch |
| 2000 - 2001 | Mr P. Fowlie, Ty Newydd, Ty Croes |
| 2001 - 2002 | Mr P. Fowlie. Ty Newydd, Ty Croes |
| 2002 - 2003 | Mr Rob Roberts, Fach, Bryngwran |
| 2003 - 2004 | Mrs Nia Jones, Ty Newydd Hen, Llanerchymedd |
| 2004 - 2005 | Mr Geraint Roberts, Cefn Arthen, Brynsiencyn |
| 2005 - 2006 | Mr William Spencer Hughes, Dalar Deg, Llanddeusant |
| 2006 - 2007 | Mrs Heulwen Thomas, Bryn Garth, Llanerchymedd |
| 2007 - 2008 | Miss Emily Roberts, Fferm Trecastell, Biwmares |
| 2008 - 2009 | Mr Meurig Evans, Llety Mwyn, Cefniwrch, Llangefni |
| 2009 - 2010 | Mr John Astley, Mynydd Mwyn Mawr, Llanerchymedd |
| 2010 - 2011 | Mrs Eleri Owen, Fferm Cefniwrch, Cefniwrch, Llangefni |
| 2011 - 2012 | Mrs Eleri Owen, Fferm Cefniwrch, Cefniwrch, Llangefni |
| 2012 - 2013 | Mr J. O. Jones, Sarn, Llanfechell |
| 2013 - 2014 | Mr Wyn Williams, Penrhyn, Llanfwrog |
| 2014 - 2015 | Mr Bob Roberts, Tŷ'r Ysgol, Llandrygarn |
| 2015 - 2016 | Mrs Olwen Owen, Geirn, Carmel |
| 2016 - 2017 | Mrs Jane Foulkes, Bodowyr Isaf, Llangaffo |
| 2017 - 2018 | Mr Tom Jones, Maes Mawr, Llanfechell |

# Cadeiryddion Sirol 1981/82 – 2017/18

| | |
|---|---|
| 1981 - 1982 | Mr Arwel Jones, Tyddyn Harri, Ty Croes |
| 1982 - 1983 | Mr Alwyn Jones, Alfor, Pentraeth |
| 1983 - 1984 | Miss Olwen Williams, Coedlys, Marianglas |
| 1984 - 1985 | Me Edward Jones, Ty'n Llan, Tregaian, Llangefni |
| 1985 - 1986 | Mr Tudur Anwyl Williams, Fferm Treborth, Bangor |
| 1986 - 1987 | Miss Sandra Evans, Bryn Teg Farm, Gorad, Valley |
| 1987 - 1988 | Mr Martin Williams, Penrallt, Bryngwran |
| 1988 - 1989 | Mr Aled Morris Jones, Ardro, Rhosgoch |
| 1989 - 1990 | Miss Olwen Hughes, Glan Gors, Pencarnisiog |
| 1990 - 1991 | Mr W Gareth Owen, Gadfa Ganol, Penysarn |
| 1991 - 1992 | Miss Rhian Owen, Preswylfa, Malltraeth |
| 1992 - 1993 | Mr William S Hughes, Graeanfa, Llanfaethlu |
| 1993 - 1994 | Mr Elfed Hughes, 3 Maes Twrog, Ty'n Lon, Caergybi |
| 1994 - 1995 | Miss Wendy Hughes, Penthyn, Pentraeth |
| 1995 - 1996 | Miss Eleri Roberts, Fferm Cefniwrch, |
| 1996 - 1997 | Mr Sion Ff Roberts, Tai Hen, Rhosgoch |
| 1997 - 1998 | Miss Bethan Pritchard, Arfryn, Llangoed |
| 1998 - 1999 | Miss Nia Williams, Fron Deg, Llanddona |
| 1999 - 2000 | Mr Carwyn Edwards, Boderwedd, Llanfechell |
| 2000 - 2001 | Miss Bethan Pritchard, Arfryn, Llangoed |
| 2001 - 2002 | Miss Bethan Pritchard, Arfryn, Llangoed |
| 2002 - 2003 | Mr Arwel Hughes, Cilmaenan, Llanfaethlu |
| 2003 - 2004 | Sian Pritchard, Sŵn y Coed, 18 Ty'n Coed Isaf, Llangefni |
| 2004 - 2005 | Mr Dyfnallt Huws, Eugrad, Brynteg |
| 2005 - 2006 | Catrin Owen, Swyn yr Afon, Llanbedrgoch |
| 2006 - 2007 | Mr Richard Evans Jones, Bryn Gwyn, Gaerwen |
| 2007 - 2008 | Llinos Medi Huws, Ty Capel, Carmel, Llanercymedd |
| 2008 - 2009 | Mr Aled Thomas, Cae Isaf, Llanddeusant |
| 2009 - 2010 | Mr Thomas Hughes, Penrhos, Maenaddwyn, Capel Coch |
| 2010 - 2011 | Mr Dafydd Foulkes, Bodowyr Isaf, Llangaffo |
| 2011 - 2012 | Miss Nia Medi Williams, Rhymer, Tyn Lôn, Caergybi |
| 2012 - 2013 | Mr Martin Roberts, Bryn Teg, 14 Heol y Bryn, Twtill, Caernarfon |
| 2013 - 2014 | Miss Sian Pierce Roberts, Cefn Arthen,Brynsiencyn |
| 2014 - 2015 | Mr Ieuan P Williams, Yr Ynys, Rhosgoch |
| 2015 - 2016 | Miss Gwenno Pritchard Evans, Bodwrdin, Bodorgan |
| 2016 - 2017 | Miss Sioned Elin Edwards, Parc Glas, Dwyran |
| 2017 - 2018 | Miss Sioned Haf Williams, Pen Y Bryn, Llynfaes |

# AMSERLEN RALI FFERMWYR IFANC YNYS MÔN
# 9fed Mehefin 2018

Cystadleuaeth Crefft / Arddangosfa'r Ffederasiwn / Arddangosfa Iau
i fod yn eu lle erbyn 8.30yb ar gyfer beirniadu.

| | |
|---|---|
| **8:30** | Beirniadu Crefft – Eitem Goffaol (Byrddau 1) |
| **8:30** | Gwaith Coed (Cylch / Ring) |
| **8.30** | Gosod Blodau (Byrddau 2) |
| **9:30** | 1. Dawnsio (Llawr) |
| | 2. Beirniadu Arddangosfa'r Ffederasiwn ac Arddangosfa Iau |
| **9:30** | Coginio (Byrddau 3) |
| **10:00** | Dylunio a chreu barcud (Fyny Grisiau) |
| **10:00** | Cneifio a Thrin Gwlân (Sied 'Wartheg) |
| **10:30** | Ras Gyfnewid Berfeydd/RAF Wheelbarrow Relay (Sied 'Wartheg) |
| **11:00** | Gêm yr Oesoedd / Generation Game (max 4 tim) (Llawr / Llwyfan) |
| **11:00** | Ailgylchu pallet (Sied 'Wartheg) |
| **12:00** | Hyrwyddo eich clwb/ Promote your club (Llwyfan) |
| **12:30** | Gwisgo i fyny (Cylch / Ring) |
| **1:00** | Canu (Llwyfan / Llawr) |
| | **1:00yp /1:30yp - Arwerthiant Gwaith Coed (Oddeutu)** |
| **1:45** | Ar y newyddion/On the news (Llwyfan / Llawr) |
| **2.30** | Band Ailgylchu/Recycled Band (Llwyfan / Llawr) |
| **3:00** | Tynnu Rhaff (Iau / Merched / Dynion) |
| **5.00** | Seremoni Wobrwyo |

# DIOLCH AM NODDI CYSTADLEUTHAU

Y Tepot Pridd, Argraig, Llanrhuddlad, Caergybi, Ynys Môn LL65 4LD
ffôn: 01407 730194   e-bost: ella178@btinternet.com

Blas Llynnon, Melin Llynnon, Llanddeusant, Ynys Môn LL65 4AB
ffôn: 01407 730633   e-bost: info@blasllynnon.co.uk

T J & E J Hughes, Cleifiog, Y Fali, Ynys Môn LL65 3PZ
ffôn: 07799793356   e-bost: cleifiogisaf@aol.com

Hufen Iâ Llanddwyn, Llys-y-Marchog Ddu, Pen Lon, Niwbwrch, Ynys Môn LL61 6RS
ffôn: 07885707906   e-bost: geraintfoulkes@aol.com

Gwasanaeth Garddio Daf a Dei, Bryn Eryl, Dwyran, Ynys Môn LL61 6YD
ffôn: 07733173964   e-bost: deiomeilir@hotmail.co.uk

Popty'r Bryn, Cefn Arthen, Brynsiencyn, Ynys Môn LL61 6SZ
ffôn: 07733173964   e-bost: nerys@popty'rbryn.co.uk

Miss Enid Williams, 4 Nant Y Pandy, Llangefni, Ynys Môn LL77 7JF
ffôn: 01248 722535   e-bost: enidbryn@btinternet.com

A 2 B Taxi Services, Hendre Boeth, Llanddona, Beaumaris, Ynys Môn LL58 8YD
ffôn: 07928 006050

Môn Power & Energy Ltd., 31 Brig Y Nant, Llangefni, Ynys Môn LL77 7QD
ffôn: 07547 648130   e-bost: brynpistyll@btinternet.com

Blodau Cara, Aran, Greenfied Avenue, Llangefni, Ynys Môn LL77 7NU
ffôn: 07534804057   e-bost: blodaucara@hotmail.co.uk

C L Jones Ltd., Unit 14, Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn LL77 7AX
ffon: 01248 751677   e-bost: enquiries@cljonesltd.co.uk

Glyn Jones Building Contractors, Site 6 Business Park, Amlwch, Ynys Môn LL68 9BX
ffôn: 01407 0830548   e-bost: info@ glynjonesltd.co.uk

M-Trac Cymru, Bryncir, Garndolbenmaen, LL51 9LX
ffon: 01766 530555   e-bost: medwyn@mtraccymru.com

# Cymdeithas Amaethyddol Môn

## Dau ddiwrnod Gwych
## i'r teulu cyfan yn

# Sioe Sir Fôn

# 14eg & 15fed Awst 2018

## Maes y Sioe, Gwalchmai

## Cystadlaethau, gweithgareddau a llawer iawn mwy!

**Am fwy o wybodaeth am weithgareddau'r Gymdeithas cysylltwch â**

Swyddfa'r Sioe, "Tŷ Glyn Williams", Maes Y Sioe,
Gwalchmai, Ynys Môn LL65 4RW
01407 720072 / 01407 720880

**neu drwy**

www.angleseyshow.org.uk
www.facebook.com/sioesirfonangleseyagriculturalshow

info@angleseyshow.org.uk
twitter.com/AngleseyShow1

# Sioe 'Aeaf Môn

# Tachwedd 10fed & 11fed 2018

**Cystadlaethau dydd Sadwrn**

Da Bwy a Carcws, Cynnyrch Fferm, Coginio a Gwaith Llaw

**Cystadlaethau Ceffylau yn unig dydd Sul**

Cysylltwch a Swyddfa'r Sioe am fwy o fanylion

## Pob Llwyddiant i'r Mudiad
## yn eu Gweithgareddau


GWEITHGOR CODI ARIAN SIOE MON
DIGWYDDIADAU
EVENTS 2018
ANGLESEY SHOW FUND RAISING GROUP
HAF/SUMMER
HELFA DRYSOR - TREASURE HUNT
*DYDDIAD I'W GADARNHAU - DATE TO BE CONFIRMED*
CERDDED FFERM, A CHIG RHOST
- TEULU PENRHYN - FARM WALK
23/06/18
30/06/18
TAITH GERDDED - LLYN CEFNI -
SPONSORED WALK & PICNIC
NOSON GWIS
- LOBSTER POT - QUIZ NIGHT
07/11/18
www.angleseyshow.org.uk
PosterMyWall.com

# ASHBROOK
## PLANT HIRE AND ACCESS HIRE

A long-established plant hire business offering a wide range of plant and access equipment; recognised for its quality, service and on-time deliveries Nationwide.









## Plant and Access Machinery:

- Compressors
- Compactors
- Dozers
- Dumpers
- Dump Trucks
- Excavators
- Fuel Bowsers
- Forklifts
- Tower Lights
- Power Washers
- Rollers
- Skid Steers
- Telehandlers
- Tractors
- Trailers
- Artic Booms
- Scissor Lifts
- Attachments
- Tractor Mounted

## Groundworks:

- Milking Parlours
- Poultry Sheds
- Yard Repairs
- Cubicle Housing
- Silage Pits
- Lagoons
- Farm Tracks
- Concreting
- Equestrian

## Agricultural Machinery:

- Slurry Tankers
- Rear Spreader
- Dual Spreader
- Cattle Trailer
- Dump Trailers
- Bale Trailer
- Plant Trailer
- Horse Trailer
- Car Transporter
- Rotavator
- Power Harrow
- Subsoiler
- Flail Topper

Contact us today for further information

**BANGOR**
01248 364 944

**CONGLETON**
01260 270 817
07776 213 846

**WARRINGTON**
01925 599 080

www.ASHBROOKPLANT.co.uk

glanbia CHEESE

## Our Milk

Using the highest quality milk



Glanbia Cheese Ltd
4 Royal Mews
Gadbrook Park
Northwich
Cheshire
CW9 7UD
United Kingdom

T (+44) 1606 810 900

gaskells
waste matters

# Waste Matters to everyone at Gaskells

We're proud to be one of the largest independent, privately owned waste management companies in the North West of England

***Covering Lancashire, Merseyside, Greater Manchester, Cheshire, Wirral, Shropshire, Mid Wales, North Wales & Anglesey***

- Wheelie bin, Front End Loader & Roll on roll off services
- Fully automated materials recycling facility (MRF)
- Seperate general waste, glass, paper & card and food waste collections
- ISO accredited: 9001, 14001 & 18001
- Balers & compactors available
- 7 day waste collection service
- Free waste management audit
- Hazardous waste & WEEE
- Safe Contractor

0800 046 9800

www.gaskellswaste.co.uk

enquiries@gaskellswaste.co.uk

CIWM AFFILIATED ORGANISATION

recycle